# Agenda - Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3

Dyddiad: Dydd Llun, 15 Mai 2023

Amser: 14.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Gareth Price**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

Deisebau@senedd.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(Tudalennau 1 - 25)

**Dogfennau atodol:**

Briff y Cadeirydd

## 2 Sesiwn dystiolaeth 1- P-06-1326 Dylai'r Senedd graffu ar y sgandal mesuryddion rhagdalu yng Nghymru

(14:00 - 15:00)

Neil Kenward, Ofgem

**Dogfennau atodol:**

## 3 Sesiwn dystiolaeth 2 - P-06-1326 Dylai'r Senedd graffu ar y sgandal mesuryddion rhagdalu yng Nghymru

(15:00 - 16:00) (Tudalennau 26 - 27)

Chris O'Shea, Centrica

Dhara Vyas, Energy UK

Andrew Ward, Scottish Power Retail

**Dogfennau atodol:**

Gohebiaeth gan Centrica, 4 Mai 2023 (Saesneg yn unig)

## 4 Deisebau newydd

**Dogfennau atodol:**

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**4.1 P-06-1324 Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi siomi pobl Gogledd Cymru a dylid ei rannu'n unedau llai**

(Tudalennau 28 - 35)

**Dogfennau atodol:**

Briff Ymchwil

Gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 30 Mawrth 2023

**4.2 P-06-1327 Cyfleusterau Canolfannau Hamdden am ddim i blant**

(Tudalennau 36 - 41)

**Dogfennau atodol:**

Briff Ymchwil

Gohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a'r Prif Chwip, 28 Mawrth 2023

**4.3 P-06-1328 Dylid sicrhau bod yr holl weithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru yn cael eu talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol newydd (£10.90) ar unwaith**

(Tudalennau 42 - 47)

**Dogfennau atodol:**

Briff Ymchwil

Gohebiaeth gan Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, 29 Mawrth 2023

**4.4 P-06-1329 Gosod uchelgais ac amserlen glir i roi addysg cyfrwng Cymraeg i bob plentyn yn y wlad**

(Tudalennau 48 - 54)

**Dogfennau atodol:**

Briff Ymchwil

Gohebiaeth gan Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, 27 Ebrill 2023

**4.5 P-06-1330 Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i wrthod eu cynigion ar gyfer ailbrisio'r dreth gyngor**

(Tudalennau 55 - 66)

**Dogfennau atodol:**

Briff Ymchwil

Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 27 Mawrth 2023

Gohebiaeth gan y deisebydd, 10 Mai 2023 (Saesneg yn unig)

**4.6 P-06-1332 Ariannu ymchwil brechlyn i amddiffyn gwiwerod coch rhag feirws marwol brech y gwiwerod**

(Tudalennau 67 - 76)

**Dogfennau atodol:**

Briff Ymchwil

Gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 28 Ebrill 2023

Gohebiaeth gan y deisebydd, 3 Mai 2023 (Saesneg yn unig)

## 5 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

**Dogfennau atodol:**

**5.1 P-05-1106 Cyflwyno cyllidebau iechyd personol a gofal personol yng Nghymru**

(Tudalennau 77 - 80)

**Dogfennau atodol:**

Tudalen flaen

Gohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, 18 Ebrill 2023

**5.2 P-06-1213 Dylid gwahardd defnydd hamdden o Seadoo/sgïo jet yng Nghymru. Ac eithrio mewn ardaloedd dynodedig a reolir yn llym**

(Tudalennau 81 - 84)

**Dogfennau atodol:**

Tudalen flaen

Gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 5 Ebrill 2023

Gohebiaeth gan y deisebydd, 2 Mai 2023 (Saesneg yn unig)

**5.3 P-06-1247 Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i arwain y ffordd drwy gefnogi treialon wythnos waith pedwar diwrnod yng Nghymru**

(Tudalennau 85 - 89)

**Dogfennau atodol:**

Tudalen flaen

Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor, 10 Mawrth 2023

**5.4 P-06-1294 Peidiwch â gadael cleifion â chanser y fron metastatig yng Nghymru y tu ôl**

(Tudalennau 90 - 91)

**Dogfennau atodol:**

Tudalen flaen

Gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 13 Ebrill 2023

Gohebiaeth gan y deisebydd, 10 Mai 2023

**5.5 P-06-1303 Creu, ariannu a chynnal digon o leoedd meithrin a gofal plant fforddiadwy i bob rhiant sy'n gweithio**

(Tudalennau 92 - 94)

**Dogfennau atodol:**

Tudalen flaen

Gohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, 28 Mawrth 2023

Gohebiaeth gan y deisebydd, 3 Mai 2023 (Saesneg yn unig)

**5.6 P-06-1325 Gostwng y cyfyngiad cyflymder ar yr A5 drwy Glasfryn**

(Tudalennau 95 - 98)

**Dogfennau atodol:**

Tudalen flaen

Gohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, 2 Mai 2023

Gohebiaeth gan y deisebydd, 8 Mai 2023

Gohebiaeth gan y deisebydd, 8 Mai 2023 (Ar gael i Aelodau yn unig)

## 6 Papurau i'w nodi

**Dogfennau atodol:**

**6.1 Papur i'w nodi - P-06-1161 Casglu a chyhoeddi data yn rheolaidd o ran faint o fabanod/plant sy'n dychwelyd at ofal eu rhieni sydd wedi bod mewn gofal ar ddiwedd Lleoliad Rhiant a Phlentyn**

(Tudalennau 99 - 101)

**Dogfennau atodol:**

Gohebiaeth gan Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Ebrill 2023

**6.2 Papur i'w nodi - P-06-1272 Gwahardd defnyddio 'cymalau dim anifeiliaid anwes' mewn cytundebau tenantiaeth yng Nghymru**

(Tudalennau 102 - 103)

**Dogfennau atodol:**

Gohebiaeth gan Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 6 Ebrill 2023

**6.3 Papur i'w nodi - P-06-1297 Dod â "llosgi dan reolaeth" i ben yng Nghymru**

(Tudalennau 104 - 110)

**Dogfennau atodol:**

Gohebiaeth gan y Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru, 30 Mawrth 2023 (Saesneg yn unig)

**6.4 Papur i'w nodi - P-06-1326 Dylai'r Senedd graffu ar y sgandal mesuryddion rhagdalu yng Nghymru**

(Tudalennau 111 - 115)

**Dogfennau atodol:**

Gohebiaeth gan Cyngor ar Bopeth Cymru at y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip, 31 Mawrth 2023 (Saesneg yn unig)

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

**Dogfennau atodol:**

## 8 Trafod tystiolaeth - P-06-1326 Dylai’r Senedd graffu ar y sgandal mesuryddion rhagdalu yng Nghymru

Dogfennau atodol:

## 9 Adroddiad Blynyddol: Strwythur amlinellol

Dogfennau atodol:

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**P-06-1326 The Senedd should scrutinise the prepayment meter scandal in Wales, Correspondence – Centrica to Chair, 04.05.23**

Dear Mr Sargeant,

Given my upcoming participation at a session of the Petitions Committee on 15 May on prepayment meters, I wanted to share the findings from our internal investigation into the conduct of British Gas' warrant activity. A copy of the report is available here - but I also wanted to highlight the key findings and actions that we are taking to improve our approach and protect our customers.

By way of background, our investigation, overseen by independent regulatory compliance consultancy, Promontory Financial Services, looked at the facts of the individual cases that were raised with us, as well as examining the systems and controls our third-party contractor Arvato had in place and finally, the inquiry looked at Centrica's own governance and oversight processes in relation to the management of Arvato.

The investigation concluded that there were no systemic issues in the way we handled the fitting of prepayment meters under warrant, but it did find evidence that in a small number of cases, we have got things wrong. Today we are taking immediate action to address the issues that the report has identified, indeed we've already started making the changes. The details of the hundreds of difficult cases we have reviewed as part of this process has also reinforced the need for a broader debate on the underlying issue of affordability. This is critical, as the struggle millions of consumers face to pay bills is not going away anytime soon.

***Investigation findings***

- As well as reviewing the cases reported in the media, we have reviewed a statistically robust sample of 321 cases:
  - Of these 321 cases, the investigation found two customer cases where the investigation team considered that a PPM was not appropriate because of the personal circumstances of the customers.
  - The investigation team found 13 cases where the Arvato warrant officer proceeded with a PPM installation without sufficiently recording how previously known vulnerability considerations had been considered contrary to our policies and procedures. British Gas is currently looking into these cases to determine whether new facts emerge that would point to a change in payment type.
  - The investigation found a further 13 cases where there was insufficient data available for the investigation team to conclude whether the PPM installation had been carried out in line with our policies and procedures
  - The remaining cases were found to be compliant with the obligation to ensure that installations were safe and reasonably practicable for the customer.
- In those cases where the investigation team considered that a PPM was not appropriate, we have contacted the customer and have offered compensation and to change the meter.
- The report identified a number of opportunities and areas for future improvement in systems and controls, including:
  - More integrated governance arrangements; incorporation of complaints data into the review of PPM installations; insufficient detail captured in the records of customer interactions in a limited number of cases; and areas for improvement in the calibration session involving both British Gas and Arvato.

- The report also found that remuneration and incentives did not seek to attach greater weight to the volume of installations of PPMs, and quality assurance checks were frequent and extensive.

***Actions***

On the back of these findings British Gas has committed to the following actions and support for customers:

- We have decided that British Gas will permanently cease all warrant-related work with third party contractors such as Arvato given the complexity and sensitivity of the activity in question; as and when PPM warrant installations resume, this work will now be carried out in-house. This will give British Gas more direct oversight of the process. Agents will also benefit from training at British Gas' award-winning academies, creating a highly skilled workforce that will work across this sensitive issue.
- Introduce parity between the cost of energy for PPM customers and the cost of energy for direct debit customers, earlier than mandated (from 1 April).
- Continue to support customers with a £10 million fund to directly support PPM customers who are in debt by providing a non-repayable credit up to £250. This fund has already helped over 50,000 PPM customers this winter.
- Commitment to Ofgem's voluntary Code of Practice on involuntary PPM installations.
- In addition to these commitments, we will work with others in the sector, and beyond, to push for better data sharing in relation to customers who are either physically or financially vulnerable on an industry-wide basis, drawn from sources such as the Department of Work and Pensions and HM Revenue and Customs, as well as third sector organisations. We would be grateful for your support for such a data sharing initiative.

***Tackling energy affordability***

While we must take action to get things right and ensure vulnerable customers receive support, our own investigation has reinforced that changes to prepayment meter processes alone will not address the underlying problems around affordability for many customers. We believe it is also vital to look at the wider issue of long-term affordability of energy. The UK Government has confirmed they are looking carefully at long term energy support, including potentially a social tariff, from April 2024. This is welcome news for those on the lowest incomes but there are some tough policy choices about how this is paid for.

I look forward to joining the upcoming session of the Petitions Committee on 15 May.

Best wishes,

Chris O'Shea
Group Chief Executive

Senedd Cymru | Y Gwasanaeth Ymchwil
Welsh Parliament | Research Service

# Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi siomi pobl Gogledd Cymru a dylid ei rannu'n unedau llai.

Y Pwyllgor Deisebau | 15 Mai 2023
Petitions Committee | 15 May 2023

**Cyfeirnod:** SR23/5478-1

**Rhif y ddeiseb:** P-06-1324
**Teitl y ddeiseb:** Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi siomi pobl Gogledd Cymru a dylid ei rannu'n unedau llai.

**Geiriad y ddeiseb:**
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) yw Bwrdd Iechyd Lleol GIG Cymru ar gyfer Gogledd Cymru. Dyma'r sefydliad iechyd mwyaf yng Nghymru, sy'n darparu gwasanaethau sylfaenol, cymunedol, iechyd meddwl ac acíwt mewn ysbytai ar gyfer poblogaeth o tua 694,000 o bobl yn chwe phrif ardal gogledd Cymru (Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd a Wrecsam) yn ogystal â rhannau o ganolbarth Cymru. Mae wedi bod i mewn ac allan o fesurau arbennig er 2015.

Mae BIPBC wedi cael cyfres o brif weithredwyr a swyddogion gweithredol sydd, yn ddieithriad, wedi methu â mynd i'r afael â'r drychineb sefydliadol enfawr o ran gofal Betsi. Nid yw gwasanaethau fasgwlaidd, gwasanaethau strôc, amseroedd aros trychinebus mewn adrannau Damweiniau ac Achosion Brys, Iechyd Meddwl ac amseroedd aros andwyol am lawdriniaethau arfaethedig yn cael eu trin â digon o frys. Mae pobl Gogledd Cymru wedi cael cam. Nid oes gwaith craffu ar benderfyniadau'r bwrdd yn digwydd ac mae cleifion yn dioddef yn ddiangen.

Mae'n amser cyfaddef bod y sefydliad yn llawer rhy fawr ac anhylaw i ymateb

i'r heriau sy'n ei wynebu, a'i rannu'n unedau daearyddol llai sy'n ymateb i anghenion eu poblogaethau lleol.

# 1. Cefndir

Mae pryderon am Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) yn dyddio'n ôl i'w flynyddoedd cynharaf yn dilyn ad-drefnu'r GIG yn 2009, gyda nifer o adroddiadau dilynol yn codi pryderon difrifol am ansawdd a diogelwch y gofal a ddarperir yn rhai o'r gwasanaethau. Mae peth o'r gronoleg ddilynol wedi ei hamlinellu ar wefan BIPBC ac yn adroddiad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Bumed Senedd Adolygiad Llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: Yr Hyn a Ddysgwyd (Mai 2019)

Yn fwy diweddar, mae Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Chweched Senedd wedi ymgymryd â gwaith dilynol ar faterion llywodraethu yn BIPBC, gan gynnwys cymryd tystiolaeth fanwl gan BIPBC ar 9 Mawrth 2022, gohebiaeth gyda BIPBC a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac ar 10 Tachwedd 2022, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru.

Cytunodd y Pwyllgor i adolygu ac ailedrych ar y cynnydd a wneir gan y Bwrdd yn hydref 2022 ond gohiriwyd y gwaith hwn yn dilyn barn amodol ar gyfrifon 2021-22 y Bwrdd Iechyd a'r gwallau a nodwyd ynddynt gan yr Archwilydd Cyffredinol, sy'n destun ymchwiliad pellach. Mae'r Pwyllgor wedi dweud y bydd yn parhau i fonitro materion sy'n ymwneud â'r bwrdd iechyd yn agos a bydd yn cynnal ei waith craffu cynhwysfawr ei hun ar y materion hyn mewn modd amserol.

# 2. Dwysáu ac ymyrryd

Ym mis Mehefin cafodd BIPBC ei **osod mewn Mesurau Arbennig** – y lefel uchaf o uwchgyfeirio o dan Drefniadau Dwysáu ac Ymyrryd GIG Cymru. Nodwyd pum maes allweddol yr oedd angen eu gwella; llywodraethu, arweinyddiaeth a throsolwg yn y bwrdd iechyd; gwasanaethau iechyd meddwl; gwasanaethau mamolaeth; gofal sylfaenol, yn enwedig y tu allan i oriau; ac ymgysylltu â'r cyhoedd.

Ym mis Chwefror 2018 cafodd gwasanaethau mamolaeth eu dad-ddwysáu o fesurau arbennig, ac yna gwasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau ym mis Chwefror 2019.

Ym mis Tachwedd 2020 cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd ar y pryd y byddai BIPBC yn cael ei **dad-ddwysáu o fesurau arbennig** ac yn trosglwyddo i ymyrraeth wedi'i thargedu ar unwaith. Roedd hyn i'w gefnogi gan £82m pellach y flwyddyn dros dair blynedd a hanner. Ym mis Mawrth 2021 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y Fframwaith Ymyrraeth wedi'i Dargedu, gan nodi'r meysydd i'w gwella a ddisgwylir gan BIPBC.

Ar 23 Chwefror 2023, cyhoeddodd Archwilio Cymru adroddiad budd y cyhoedd: Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – Adolygiad o Effeithiolrwydd y Bwrdd. Yn ôl Archwilio Cymru:

> Trwy waith archwilio arferol a wneir ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, datgelwyd pryderon cynyddol ynghylch cydlyniant y bwrdd a pherthnasoedd gwaith ar lefel uwch. O ganlyniad i faint a natur y pryderon hyn, cwblhaodd Archwilydd Cyffredinol Cymru adolygiad brys â phwyslais penodol o effeithiolrwydd cyfunol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.
>
> Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol er budd y cyhoedd wedi canfod bod y chwalfa mewn perthnasoedd gwaith o fewn y bwrdd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn sylfaenol beryglu ei allu i fynd i’r afael â’r heriau niferus y mae’r sefydliad yn eu hwynebu. At hynny, canfu’r adroddiad nad yw’r sefyllfa bresennol yn debygol o gael ei datrys heb ryw fath o ymyrraeth i sefydlu Tîm Gweithredol mwy unedig a bwrdd ehangach.

Mae'r adroddiad hefyd yn nodi’r camau gweithredu y mae Archwilio Cymru o’r farn sydd angen eu cymryd ar unwaith er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd yn yr adolygiad, ac yn nodi'r trosiant sylweddol o fewn y Tîm Gweithredol. Mae’r adroddiad yn tynnu sylw at yr oedi wrth recriwtio Prif Weithredwr newydd yn lle’r Prif Weithredwr parhaol a adawodd y sefydliad ar ddiwedd mis Hydref 2022, gan greu rhai heriau uniongyrchol i’r sefydliad o ran parhad a sefydlogrwydd arweinyddiaeth y Tîm Gweithredol.

Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad, ar 27 Chwefror cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y bydd BIPBC yn cael ei roi mewn mesurau arbennig “yn sgil pryderon difrifol am berfformiad, arweinyddiaeth a diwylliant.”

Dywedodd y Gweinidog hefyd, “mae Cadeirydd, Is-gadeirydd ac aelodau annibynnol y Bwrdd wedi cytuno i gamu i'r naill ochr” a bod nifer o benodiadau uniongyrchol i'r Bwrdd wedi'u gwneud gan y Gweinidog i sicrhau sefydlogrwydd gan gynnwys Dyfed Edwards fel y Cadeirydd newydd. o BIPBC. At hynny, adroddodd y Gweinidog y byddai'r bwrdd iechyd yn cael ei gefnogi gan dîm ymyrraeth a chymorth ac yn gwneud datganiad llafar i'r Cyfarfod Llawn ar 28 Chwefror, lle cadarnhaodd y bydd y tîm hwn yn cael ei gontractio am chwe mis i ddechrau, ac y bydd yn cefnogi trefniadau llywodraethu'r bwrdd iechyd a materion eraill sy'n ymwneud â mesurau arbennig.

# 3. Strwythur sefydliadol BIPBC

Mae BIPBC yn dweud ar ei wefan:

> Ni ydy'r sefydliad iechyd mwyaf yng Nghymru. Mae ein cyllideb yn £1.87 biliwn ac mae gennym ni dros 19,000 o staff. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau gofal iechyd ar gyfer mwy na 700,000 o bobl ar draws chwe sir gogledd Cymru (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam). Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydlynu gwaith 97 o bractisau meddygon teulu, a gwasanaethau'r GIG sy'n cael eu darparu gan 82 o bractisau deintyddol ac orthodonteg, 72 o bractisau optometreg ac optegwyr a 150 o fferyllfeydd yng ngogledd Cymru.

Er mwyn cymharu, Mae BIP Caerdydd a'r Fro yn cyflogi tua 14,500 o staff, ac yn gwario tua £1.4 biliwn bob blwyddyn ar ddarparu gwasanaethau iechyd i boblogaeth o tua 472,400 o bobl yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg yn ogystal â gwasanaethu poblogaeth ehangach ar draws De a Chanolbarth Cymru ar gyfer ystod o arbenigeddau.

Mae cwestiynau wedi'u codi o'r blaen ynghylch maint BIPBC ac a ddylid ei wahanu'n gyrff llai. Ym mis Hydref 2020 Galwodd Plaid Cymru am “dirwedd gofal iechyd a gofal newydd yn y gogledd”, gan ddisgrifio'r system bresennol fel un rhy fawr a thrwsgl”. Yn 2015, gwnaeth y Prif Weinidog ar y pryd ddweud fod yna broblem ynghylch ai un bwrdd sengl yw'r ffordd ymlaen ar gyfer y gogledd cyfan. Gwnaeth y Prif Weinidog presennol hefyd gydnabod yn 2019 ei fod wedi ystyried a ddylid rhannu'r bwrdd ond daeth i'r casgliad y byddai ad-drefnu arall yn rhwystr i gynnydd. Fodd bynnag, nododd fod hyn yn cael ei adolygu'n barhaus a phe byddent, yn ôl y Prif Weinidog, o'r farn mai'r ateb i broblemau Betsi oedd ad-drefnu, ni fyddent yn atal rhag gwneud hynny.

Yn dilyn adroddiad beirniadol i wasanaethau fasgwlaidd yn BIPBC ym mis Mawrth 2022, dywedodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, sy'n gadael ei swydd, y gallai fod yn amser i ofyn a yw bwrdd iechyd y gogledd yn rhy fawr neu a allai barhau yn ei ffurf strwythurol bresennol. Cafwyd galwadau gan Blaid Cymru mewn Cyfarfod Llawn ym mis Mai 2022 – wedi'i wrthod gan Lywodraeth Cymru – i'r bwrdd iechyd gael ei rannu, er bod llefarydd y Blaid yn cydnabod bod ad-drefnu yn broses fawr a chymhleth.

Cafodd yr alwad am rannu'r bwrdd iechyd yn "rhannau llai, mwy hylaw" ei hailadrodd yn y Cyfarfod Llawn 28 Chwefror 2023 (para.227). Ymatebodd y Gweinidog gan ddweud "rwyf am sicrhau y gall pobl yn y gogledd gael y gwasanaeth sydd ei angen arnyn nhw, a dydw i ddim yn credu bod ad-drefnu sy'n tynnu sylw yn aruthrol yn mynd i helpu yn y dasg honno". (para. 234)

# 4. Ymateb Llywodraeth Cymru

Yn ei hymateb dywed y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:

> Nid wyf yn credu y dylem ystyried torri'r bwrdd iechyd yn unedau llai. Y bwrdd iechyd hwn yw'r un mwyaf yng Nghymru ac rwy'n credu ei fod yn elwa'n sylweddol o'i raddfa. Mae ei faint yn golygu y gall ddarparu gwasanaethau cyson i boblogaeth y Gogledd, drwy reoli un rhestr aros ar gyfer cleifion. Gall gynnal y màs critigol sydd ei angen ar gyfer y rhan fwyaf o wasanaethau arbenigol, hyd yn oed wrth i ddatblygiadau mewn safonau proffesiynol arwain at fwy o is-arbenigo. Felly, dylai allu darparu gwasanaetha  arbenigol mwy gwydn drwy weithio ar draws ffiniau ardaloedd fel un corff.
>
> Unrhyw newid trefniadol sylweddol, neu ymgais i rannu'r bwrdd iechyd yn gyrff llai, ond yn arwain at darfu pellach ar system iechyd a gofal cymdeithasol sydd yn dal i adfer o effaith y pandemig. Gall hyn amharu ar fy amcanion i wella'r gofal. Byddai hefyd yn creu costau rheoli ychwanegol ar adeg pan fo cyllid yn dynn.
>
> Yr hyn sy'n bwysig yw sicrhau bod arweinyddiaeth a seilwaith priodol yn y bwrdd iechyd i ateb y galw am ei wasanaethau. Felly, mae'n hanfodol ein bod yn cefnogi'r bwrdd iechyd i fwrw ymlaen â thrawsnewid a pheidio ag ymgymryd â gwaith ailstrwythuro aflonyddgar sy'n dargyfeirio adnoddau oddi wrth ofal cleifion.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1324
Ein cyf/Our ref EM/00506/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

30 Mawrth 2023

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 15 Chwefror ar ran Stefan Coghlan ynglŷn â deiseb i rannu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn unedau llai.

Nid wyf yn credu y dylem ystyried torri'r bwrdd iechyd yn unedau llai. Y bwrdd iechyd hwn yw'r un mwyaf yng Nghymru ac rwy'n credu ei fod yn elwa'n sylweddol o'i raddfa. Mae ei faint yn golygu y gall ddarparu gwasanaethau cyson i boblogaeth y Gogledd, drwy reoli un rhestr aros ar gyfer cleifion. Gall gynnal y màs critigol sydd ei angen ar gyfer y rhan fwyaf o wasanaethau arbenigol, hyd yn oed wrth i ddatblygiadau mewn safonau proffesiynol arwain at fwy o is-arbenigo. Felly, dylai allu darparu gwasanaethau arbenigol mwy gwydn drwy weithio ar draws ffiniau ardaloedd fel un corff.

Unrhyw newid trefniadol sylweddol, neu ymgais i rannu'r bwrdd iechyd yn gyrff llai, ond yn arwain at darfu pellach ar system iechyd a gofal cymdeithasol sydd yn dal i adfer o effaith y pandemig. Gall hyn amharu ar fy amcanion i wella'r gofal. Byddai hefyd yn creu costau rheoli ychwanegol ar adeg pan fo cyllid yn dynn.

Yr hyn sy'n bwysig yw sicrhau bod arweinyddiaeth a seilwaith priodol yn y bwrdd iechyd i ateb y galw am ei wasanaethau. Felly, mae'n hanfodol ein bod yn cefnogi'r bwrdd iechyd i fwrw ymlaen â thrawsnewid a pheidio ag ymgymryd â gwaith ailstrwythuro aflonyddgar sy'n dargyfeirio adnoddau oddi wrth ofal cleifion.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gobeithio bod hyn yn ddefnyddiol i'ch deisebwyr.

Yn gywir,



**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Senedd Cymru | Welsh Parliament
**Ymchwil y Senedd | Senedd Research**

# P-06-1327 Cyfleusterau Canolfannau Hamdden am ddim i blant

Y Pwyllgor Deisebau | 15 Mai 2023
Petitions Committee | 15 May 2023

**Cyfeirnod:** SR23/5702-1

**Rhif y ddeiseb**: P-06-1327

**Teitl y ddeiseb**: Cyfleusterau Canolfannau Hamdden am ddim i blant

**Geiriad y ddeiseb**: Mae disgyblion Senedd Ysgol Mynydd Bychan yn credu'n gryf y dylai cyfleusterau canolfannau hamdden bod am ddim i blant yng Nghymru. Fe fydd hyn yn ein helpu i gadw'n heini a byw bywyd iach.



www.senedd.cymru

# 1. Camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru

Mae ymateb Llywodraeth Cymru i'r ddeiseb hon yn crynhoi ei pholisïau ar gyfer creu cyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan mewn chwaraeon am ddim. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi arian, drwy Chwaraeon Cymru, i awdurdodau lleol gynnig sesiynau nofio am ddim i blant a phobl ifanc 16 oed ac iau. Drwy'r cynllun, cynigir sesiwn sblash am ddim bob penwythnos ym mhob pwll nofio a dwy sesiwn ychwanegol yn ystod gwyliau'r haf. Mae awdurdodau lleol hefyd yn cynnig cymorth penodol i annog pobl ifanc o ardaloedd difreintiedig i gymryd rhan yn y cynllun Nofio am Ddim.
- £7m ar ffurf cyllid untro tuag at Haf o Hwyl 2022, a oedd yn rhan o becyn cymorth ehangach i helpu teuluoedd ledled Cymru i ymdopi â'r argyfwng costau byw. Roedd y fenter hon yn adeiladu ar Haf o Hwyl 2021 a'r Gaeaf Llawn Lles, a oedd hefyd yn fentrau a ariannwyd â chyllid untro i hybu lles ar ôl pandemig Covid-19.

# 2. Camau a gymerwyd gan Senedd Cymru

Mae pryderon yngylch effaith y cynnydd mewn costau byw ar gyfleusterau hamdden wedi'u codi gan y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol (yn ystod ei waith ar effaith costau cynyddol ar ddiwylliant a chwaraeon) a'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai (yn ystod ei waith ar wasanaethau llyfrgell a hamdden awdurdodau lleol).

## 2.1. Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol

Yn ystod ei waith ar effaith y cynnydd mewn costau byw ar ddiwylliant a chwaraeon, clywodd y Pwyllgor y byddai costau cynyddol yn arwain at gyfyngiadau ar weithgareddau, prisiau uwch a'r posibilrwydd y bydd gwasanaethau hamdden yn dod i ben. Ym mis Tachwedd 2022, argymhellodd y dylai Llywodraeth Cymru roi "cyllid ychwanegol penodol i'r sectorau chwaraeon a diwylliant i helpu lleoliadau a sefydliadau sy'n wynebu'r posibilrwydd o orfod cau ond sydd â dyfodol cynaliadwy y tu hwnt i'r argyfwng uniongyrchol."

Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn. Yn ei hymateb tynnodd sylw at y ffaith ei bod wedi rhoi £3.75 miliwn ychwanegol ar gyfer diwylliant a chwaraeon yn ystod blwyddyn ariannol 2022-23 i helpu gydag "effeithiau aruthrol chwyddiant ar gostau cyfleustodau a chostau byw cyrff hyd braich a sefydliadau yn y sector lleol". Nid yw'r cyllid ychwanegol hwn wedi arwain at gyllid penodol i helpu sefydliadau i oroesi'r cyfnod o gostau uwch, fel y galwodd y Pwyllgor amdano.

Yn ystod yr ymchwiliad, disgrifiodd Andrew Howard o Gymdeithas Chwaraeon Cymru y sefyllfa arbennig o anodd sy'n wynebu pyllau nofio, sydd â biliau ynni uchel, ac sy'n wynebu problemau eraill hefyd, fel costau cynyddol cemegau glanhau.

Mewn llythyr at Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2023, galwodd y Pwyllgor arni eto i roi cymorth ychwanegol i gyfleusterau chwaraeon a hamdden, a phyllau nofio yn benodol. Roedd hyn yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth y DU, yng Nghyllideb y Gwanwyn, ei bod am roi cymorth ariannol gwerth £63 miliwn i byllau nofio Lloegr.

## 2.2. Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

Ar 29 Mawrth 2023, mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, tanlinellodd Cymdeithas Chwaraeon Cymru a Nofio Cymru yr angen i ddarparu cyllid ychwanegol. Cyfeiriodd Fergus Feeney o Nofio Cymru at faint y cyllid sydd ei angen: "Just outlining the gap, we think between £10 million and £12 million, best case. But we start at about £30 million. So, this is a significant problem."

Disgrifiodd Mr Feeney effaith y prisiau uwch ar blant sy'n dysgu nofio:

> The average lesson pre COVID was £6.50 for a swimming lesson, and post-COVID, in the current environment across Wales, the average cost of a swimming lesson is £12.50. So, we've nearly doubled the cost of a swimming lesson. Those children in those harder-to-reach areas, underserved areas, socially and economically deprived areas, have no chance, and that's why school swimming is so important. We celebrate the 150,000 who are in those lessons—that's fantastic—but they're the ones that can afford it. We're going to have a situation very soon where, dare I say it, white middle-class children will be able to swim and the rest won't.

## 2.3. Y Pwyllgor Deisebau

Mae'r Pwyllgor eisoes wedi trafod deiseb yn:

> … galw ar y Senedd a Llywodraeth Cymru i gydnabod pa mor fregus yw sefyllfa pyllau nofio drwy ddarparu pecyn o gymorth ariannol wedi'i neilltuo y tu hwnt i'r Setliad Terfynol ar gyfer Llywodraeth Leol i sicrhau bod pyllau nofio'n gallu aros ar agor.

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb ar 27 Chwefror 2023. Er ei bod yn siomedig na chaiff cyllid ei glustnodi ar gyfer canolfannau hamdden, meddai, roedd y deisebydd yn teimlo bod ei gyfarfod yn ddiweddar â'r Gweinidog wedi bod yn ddefnyddiol, a bydd yr ymgyrch yn awr yn canolbwyntio ar Lywodraeth y DU. O ystyried hynny, cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb, gan ddiolch i'r deisebydd am dynnu sylw at y mater pwysig hwn.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

**Dawn Bowden AS/MS**
**Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip**
**Deputy Minister for Arts and Sport, and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1327
Ein cyf/Our ref DB/00180/23
Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru

28 Mawrth 2023

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 14 Mawrth 2023 ynglŷn â Deiseb P-06-1327: Amwynderau Canolfan Hamdden am ddim i blant.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu arian, drwy Chwaraeon Cymru, i awdurdodau lleol gynnig nofio am ddim i blant a phobl ifanc 16 oed ac iau. Mae'r cynllun yn darparu sesiwn sblash am ddim bob penwythnos ym mhob pwll a dwy sesiwn ychwanegol yn ystod gwyliau'r haf.  Hefyd, mae awdurdodau lleol yn darparu cefnogaeth wedi'i thargedu i annog pobl ifanc o ardaloedd difreintiedig i gymryd rhan yn y cynllun Nofio am Ddim - i gael hwyl, dysgu sgil bywyd ac i fwynhau manteision corfforol a meddyliol ffordd o fyw egnïol.

Rhoddodd Llywodraeth Cymru hefyd £7m o gyllid unigol tuag at yr Haf o Hwyl 2022, a oedd yn rhan o'n pecyn cymorth ehangach i helpu gyda'r argyfwng costau byw sy'n wynebu teuluoedd ledled Cymru. Adeiladodd y fenter ar lwyddiant Haf o Hwyl blaenorol 2021 a'r Gaeaf Lles, a oedd hefyd yn fentrau ariannu untro gyda'r nod o adfer o bandemig Covid-19.

Nod Haf o Hwyl 2022 oedd rhoi cyfle i bob plentyn a pherson ifanc 0–25 oed yng Nghymru gael mynediad at weithgareddau am ddim i gefnogi eu datblygiad a'u lles. Mae ymgysylltu pellach â gweithgareddau chwarae, chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol mewn ystod eang o leoliadau, gan gynnwys canolfannau hamdden, wedi galluogi plant a phobl ifanc i barhau â'u hadferiad o gyfyngiadau'r pandemig, gyda'r fantais ychwanegol o gefnogi teuluoedd gyda chostau gweithgareddau dros gyfnod gwyliau'r haf.

Cefnogodd y rhaglen hawl cyffredinol i weithgareddau chwarae, chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol am ddim ar bwynt mynediad i bob plentyn a pherson ifanc rhwng 0 a 25 oed i helpu tuag at leihau costau byw teuluoedd ledled Cymru. Roedd hefyd yn cefnogi lles corfforol, emosiynol a chymdeithasol plant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed sy'n cymryd rhan, gan eu galluogi i ymgysylltu'n well â dysgu ac ail-gysylltu â'r gymdeithas ehangach yn dilyn pandemig Covid-19.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru
Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg.  Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh.  Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cyflwynwyd gweithgareddau rhwng 1 Gorffennaf a 30 Medi 2022 yn gynhwysol. Cafodd £5.5 miliwn o gyllid ei sianelu drwy awdurdodau lleol ar draws Cymru, gyda'r £1.5 miliwn sy'n weddill yn cael ei ddyrannu rhwng nifer o sefydliadau gyda hanes o weithio gyda plant a phobl ifanc. Y gobaith yw bod y cyllid hwn wedi rhoi cynaliadwyedd pellach i'r darparwyr sy'n gweithredu yn y maes hwn, i symud tuag at  fwy cynaliadwy yn ariannol ac o ran yr hyn y gallant ei gynnig i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Yn gywir



**Dawn Bowden AS**
Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip

Eitem 4.3

Senedd Cymru | Welsh Parliament
**Ymchwil y Senedd | Senedd Research**

# Cyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol

Y Pwyllgor Deisebau | 15 Mai 2023
Petitions Committee | 15 May 2023

**Cyfeirnod:** SR23/5702-2

**Rhif y ddeiseb**: P-06-1328

**Teitl y ddeiseb**: Dylid sicrhau bod yr holl weithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru yn cael eu talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol newydd (£10.90) ar unwaith.

**Geiriad y ddeiseb**: Gwnaeth Llywodraeth Cymru addewid i dalu'r cyflog byw GWIRIONEDDOL i weithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru, a oedd yn £9.90. Ym mis Medi, cynyddodd y Cyflog Byw Gwirioneddol a osodwyd gan y Real Living Wage Foundation (RLFW) i £10.90. Mae gweithwyr gofal cymdeithasol yn ceisio cael dau ben llinyn ynghyd mewn argyfwng costau byw. Maen nhw'n gweld gweithwyr achrededig y RLWF yn cael o leiaf £1 yr awr yn rhagor na hwy mewn swyddi llawer llai medrus. Fe fyddan nhw'n gadael y sector yn fuan! https://llyw.cymru/gweithredur-cyflog-byw-gwirioneddol-ar-gyfer-gweithwyr-gofal-cymdeithasol

Mae angen i arian gael ei alinio i ddyddiad gweithredu'r Real Living Wage Foundation (mis Tachwedd bob blwyddyn), neu bydd gweithwyr gofal cymdeithasol yn teimlo hyd yn oed yn fwy anniddig pan fydd yn codi eto y



www.senedd.cymru

flwyddyn nesaf. Mae gweithwyr gofal cymdeithasol yn teimlo eu bod yn cael eu tanbrisio'n fawr a'u bod yn cael cam gan Lywodraeth Cymru.

# 1. Y cefndir

Mae'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn gyfradd fesul awr o gyflog sy'n cael ei osod yn annibynnol a'i ddiweddaru'n flynyddol ac mae'n wahanol i Gyflog Byw Cenedlaethol Llywodraeth y DU. Mae'n cael ei gyfrifo yn ôl costau byw sylfaenol yn y DU, ac mae cyflogwyr yn dewis talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn wirfoddol.

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru y Cyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer gofal cymdeithasol ym mis Ebrill 2022.

Ym mis Medi 2022, cyhoeddodd y Sefydliad Cyflog Byw y bydd y Cyflog Byw Gwirioneddol yn codi i £10.90 yr awr y tu allan i Lundain. Anogodd y Sefydliad Cyflog Byw ei gyflogwyr achrededig i weithredu'r codiad cyflog cyn gynted â phosibl, ond erbyn 14 Mai 2023 fan bellaf.

Cafodd cyfraddau'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer 2022 eu dwyn ymlaen i gydnabod y cynnydd sydyn mewn costau byw dros y flwyddyn flaenorol.

# 2. Camau gweithredu Senedd Cymru

Yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 5 Hydref 2022, cyfeiriodd Mark Isherwood AS at gyfarwyddwr cartref gofal a oedd wedi dweud wrtho nad oedd Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod arian ar gael i ddarparwyr drwy'r awdurdodau lleol i'w galluogi i dalu'r cynnydd yn y Cyflog Byw Gwirioneddol a gyhoeddwyd ym mis Medi 2022. Roedd cyfarwyddwr y cartref gofal yn ofni y gallai mwy o weithwyr gofal adael y sector o ganlyniad i'r diffyg cynnydd mewn cyflogau.

Yn y Cyfarfod Llawn ar 19 Hydref 2022, gofynnodd Mark Isherwood AS hefyd pryd y byddai'r cynnydd yn y Cyflog Byw Gwirioneddol (i £10.90 yr awr) ar gael i ddarparwyr drwy awdurdodau lleol. Ymatebodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol drwy ddweud bod y codiad i'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn cael ei ystyried gan Lywodraeth Cymru, a dywedodd:

> Wrth gwrs ein bod am ei dalu, ond rwy'n credu y byddwch yn ymwybodol nad yw'r amgylchiadau ariannol ar hyn o bryd yn galonogol iawn. Ond mae hyn yn rhywbeth y byddem yn sicr eisiau ei wneud.

Amlygwyd yn y cyfryngau ym mis Chwefror 2023 bod awdurdod lleol wedi trosglwyddo cyllid i gwmni gofal preifat ym mis Ebrill 2022 i gynyddu cyflogau i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol. Fodd bynnag, ni chynyddodd y cwmni gofal preifat y cyflog tan fis Hydref.

Cyfeiriodd Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd at y Cyflog Byw Gwirioneddol yn ei adroddiad ar Ryddhau cleifion o'r ysbyty ac effaith hynny ar y llif cleifion drwy ysbytai (Mehefin 2022). Mae'n nodi, er bod buddsoddiad £40 miliwn Llywodraeth Cymru yn y gweithlu gofal cymdeithasol a'i hymrwymiad i ddarparu'r Cyflog Byw Gwirioneddol wedi cael ei groesawu'n eang, roedd llawer o ymatebwyr, gan gynnwys BMA Cymru, yn teimlo nad oedd yn mynd yn ddigon pell. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig i'r ymchwiliad, mae CLILC a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn nodi:

> "[…] it is becoming increasingly clear that our ambition must go beyond this if we really want to be able to offer 'fair pay' for those who are undertaking some of the most important roles in society. There is also a need to take immediate action – the workforce challenges are already with us, and so there is a need to do all we can to increase social care workers pay now, there is simply no room to delay." [paragraff 105]

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod nad yw cyflawni'r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal cymdeithasol yn unig yn ddigon i fynd i'r afael â phrinder staff a dywed fod y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol yn gweithio ar gynigion pellach ar gyfer gwelliannau.

# 3. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Yn y llythyr at y Pwyllgor Deisebau dyddiedig 29 Mawrth 2023, mae'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wella telerau ac amodau cyflogaeth yn y sector gofal cymdeithasol. Mae'r Dirprwy Weinidog yn mynd ymlaen i ddweud bod Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r angen brys am gymorth i fynd i'r afael â materion cyflog, recriwtio a chadw, a waethygwyd gan yr heriau a gyflwynwyd yn ystod y pandemig COVID-19 a'r argyfwng costau byw, ac ym mis Ebrill 2022 darparodd £43 miliwn o gyllid ar gyfer 2022/23, a ddarparodd godiad cyflog i grŵp o weithwyr allweddol.

Mae'r llythyr yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn darparu amcangyfrif o £70 miliwn yn 2023/24 i dalu'r codiad Cyflog Byw Gwirioneddol o £10.90 yr awr, **gyda gweithwyr yn teimlo'r budd erbyn mis Mehefin 2023**.

Mae'r Dirprwy Weinidog yn nodi y cytunir ar waith cynllunio cyllideb Llywodraeth Cymru yn yr hydref ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol, ac:

> Ar hyn o bryd, nid ydym mewn sefyllfa i godi'r cyflog nac ymrwymo i ragor o gyllid gan nad oes gennym unrhyw gronfeydd wrth gefn eleni er mwyn gallu gweithredu'r codiad cyflog yn gynt.

Dywedir mai blaenoriaeth uniongyrchol Llywodraeth Cymru, yng nghyd-destun y pwysau ehangach y mae'r sector gofal cymdeithasol yn ei wynebu, yw cael "y cyllid rydym eisoes wedi'i addo i bocedi'r gweithwyr". Mae'r Dirprwy Weinidog yn tynnu sylw at y ffaith bod hwn yn "ymrwymiad sylweddol a chymhleth" gan fod cannoedd o gyflogwyr ym maes gofal cymdeithasol.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn o reidrwydd yn cael eu diweddaru na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

**Julie Morgan AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1328
Ein cyf/Our ref JMSS/00158/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

29 Mawrth 2023

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 14 Mawrth ynghylch y ddeiseb (P-06-1328) i sicrhau bod yr holl weithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru yn cael y Cyflog Byw Gwirioneddol newydd o £10.90 yn unol â dyddiad gweithredu'r Sefydliad Cyflog Byw Gwirioneddol.

Fel y gwyddoch, caiff y Cyflog Byw Gwirioneddol ei gyfrifo'n annibynnol gan y Sefydliad Resolution a'i oruchwylio gan y Comisiwn Cyflog Byw, fel rhan o broses flynyddol. Eleni, daeth cyhoeddiad y Sefydliad Cyflog Byw fis yn gynharach ar 22 Medi, yn sgil pwysau costau byw. Mae'r sefydliad yn annog pob cyflogwr achrededig i godi ei Gyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer staff cyn gynted â phosibl. Fodd bynnag, nid yw'r dyddiad cau wedi newid a bydd angen codi'r cyflog erbyn mis Mai 2023.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i wella telerau ac amodau cyflogaeth yn y sector gofal cymdeithasol. Rydym yn ymwybodol o'r angen brys am gymorth er mwyn mynd i'r afael â materion yn ymwneud â thâl, recriwtio a chadw, a waethygodd yn dilyn yr heriau a wynebwyd yn ystod pandemig Covid, a nawr yr argyfwng costau byw. Dyma pam, ym mis Ebrill 2022, roeddem yn falch o allu darparu £43 miliwn o gyllid yn ystod 2022/23, a ddarparodd godiad cyflog hanfodol i grŵp o weithwyr allweddol.

Roeddem yn falch iawn ein bod yn gallu cynnal yr ymrwymiad hwn i weithwyr gofal cymdeithasol gydag amcangyfrif o £70 miliwn yn 2023/24 er mwyn talu codiad y Cyflog Byw Gwirioneddol o £10.90 yr awr, gyda gweithwyr yn gweld budd hyn erbyn mis Mehefin 2023. Mae cynlluniau cyllidebau Llywodraeth Cymru yn cael eu cytuno yn ystod yr Hydref ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Ar hyn o bryd, nid ydym mewn sefyllfa i godi'r cyflog nac ymrwymo i ragor o gyllid gan nad oes gennym unrhyw gronfeydd wrth gefn eleni er mwyn gallu gweithredu'r codiad cyflog yn gynt.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN


Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ein blaenoriaeth gyntaf, yng nghyd-destun y pwysau ehangach y mae’r sector yn eu hwynebu, yw cael y cyllid rydym eisoes wedi’i addo i bocedi’r gweithwyr. Mae cannoedd o weithwyr ym maes gofal cymdeithasol ac mae hwn yn ymrwymiad sylweddol a chymhleth. Roeddem yn falch ein bod wedi gallu darparu’r cyllid ychwanegol hwn er mwyn rhoi’r codiad cyflog, yr oedd wir ei angen arnynt, i staff gofal cymdeithasol ledled Cymru.

Yn gywir,



**Julie Morgan AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services

Senedd Cymru | Welsh Parliament
**Ymchwil y Senedd | Senedd Research**

# P-06-1329: Gosod uchelgais ac amserlen glir i roi addysg cyfrwng Cymraeg i bob plentyn yn y wlad

Y Pwyllgor Deisebau | 15 Mai 2023
Petitions Committee | 15 May 2023

Cyfeirnod: SR23/5702-3

**Rhif y Ddeiseb:** P-06-1329

**Teitl y ddeiseb:** Gosod uchelgais ac amserlen glir i roi addysg cyfrwng Cymraeg i bob plentyn yn y wlad

**Geiriad y ddeiseb**

Rydym yn credu y dylai Llywodraeth Cymru gynnwys nod statudol yn y ddeddfwriaeth sydd ar y gweill y bydd pob person ifanc yng Nghymru yn cael ei addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, gan adeiladu ar hyn dros amser i sicrhau bod mwy a mwy o bobl ifanc yn y dyfodol yn dod yn rhugl ac yn hyderus yn yr iaith.

**Rhagor o fanylion**

Rydym yn credu bod y Gymraeg yn perthyn i bawb yng Nghymru, a bod gan bawb, waeth beth fo'u cefndir, yr hawl i'r iaith.

Mae'r dystiolaeth yn dangos mai'r ffordd i sicrhau bod pobl ifanc yn dod yn rhugl yn yr iaith yw addysg cyfrwng Cymraeg, ond dim ond tua 20% o bobl ifanc sy'n cael y cyfle hwn ar hyn o bryd.

Rydym yn credu y dylai fod twf sylweddol a chyson mewn addysg cyfrwng Cymraeg, gan adeiladu at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg i bawb i sicrhau mynediad i'r iaith i bob person ifanc.

# 1. Crynodeb

- **Ar hyn o bryd, mae tua 23%** o ddisgyblion ysgol yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.
- **Mae gan addysg rôl hollbwysig** i'w chwarae yn nod Llywodraeth Cymru o gyrraedd ei tharged o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae ganddi dargedau fesul cam wedi'u hanelu at gael sefyllfa lle bydd 40% o'r disgyblion yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2050 a 70% yn gallu siarad Cymraeg erbyn iddynt adael yr ysgol.
- Mae Llywodraeth Cymru yn **cynnig deddfwriaeth newydd** yn nhymor hwn o'r Senedd i ddisodli'r system Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg bresennol. Mae ymgynghoriad ar Bapur Gwyn ar agor ar hyn o bryd tan 16 Mehefin 2023.
- Cynhaliwyd **ymchwiliad gan un o Bwyllgorau'r Senedd** yn ddiweddar ar y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg a disgwylir y bydd yn cyflwyno adroddiad yn fuan.

# 2. Y sefyllfa bresennol o ran addysg cyfrwng Cymraeg

Ar adeg cyfrifiad ysgolion 2021/22 (a wnaed ym mis Chwefror 2022), roedd 109,331 o 471,131 o ddisgyblion yn cael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg, sy'n cyfateb i 23%. O'r 1,470 o ysgolion, roedd 439 yn ysgolion cyfrwng Cymraeg, dwyieithog neu ddwy ffrwd, sy'n cyfateb i 30% (StatsCymru). Disgwylir i ddata cyfrifiad ysgolion 2022/23 gael eu cyhoeddi ar 25 Mai 2023.

Mae disgwyl i ddatblygiad a chaffaeliad sgiliau iaith Gymraeg pobl drwy'r system addysg fod yn ganolog o ran gweithio tuag at darged Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

## 2.1. Targedau Llywodraeth Cymru

Mae strategaeth Cymraeg 2050, a gyhoeddwyd yn 2017, yn pennu **targedau** bod cyfran pob grŵp blwyddyn ysgol sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg **yn cynyddu o 22% yn 2017, i 30% yn 2031, ac i 40% yn 2050**. Mae hefyd yn ceisio

trawsnewid sut mae'r Gymraeg yn cael ei haddysgu i'r holl ddysgwyr, gan gynnwys y rhai mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, gyda **tharged o 70% o rai sy'n gadael ysgol erbyn 2050** yn nodi eu bod yn gallu siarad Cymraeg.

Mae cynyddu nifer y bobl ifanc sy'n caffael yr iaith drwy addysg ar y raddfa hon yn gofyn am gynnydd sylweddol yng nghapasiti gweithlu'r Gymraeg mewn Addysg. Mae gan Lywodraeth Cymru gynllun 10 mlynedd i wneud hyn.

## 2.2. Y sefyllfa ddeddfwriaethol

Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gael Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg sy'n nodi sut y byddant yn gwella ac yn datblygu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn eu hardal.

Yn wreiddiol, roedd Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cael eu pennu am dair blynedd a'u hadolygu'n flynyddol. Fodd bynnag, maent bellach ar gylch o ddeng mlynedd. Yn 2017, comisiynodd Llywodraeth Cymru 'adolygiad brys' o'r system bresennol ar gyfer cynllunio addysg Gymraeg, gyda'r nod o argymell sut i wella'r system Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Ymrwymodd Llywodraeth Cymru yn ei Rhaglen Lywodraethu (2021-26) a'i Chytundeb Cydweithio gyda Phlaid Cymru (Rhagfyr 2021) i gyflwyno Bil Addysg Gymraeg i'r Senedd.

# 3. Camau gweithredu diweddar gan Lywodraeth Cymru: y Papur Gwyn

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Bapur Gwyn ar gyfer Bil Addysg Gymraeg ar 27 Mawrth 2023, ochr yn ochr â datganiad Gweinidogol. Mae'n ymgynghori ar y Papur Gwyn tan 16 Mehefin 2023. Roedd y cynigion yn cynnwys:

- Gosod targed Cymraeg 2050 o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn y gyfraith – ar wyneb y Bil.
- Ystyried cynyddu'r targed o 40% o'r holl ddysgwyr yn derbyn eu haddysg trwy'r Gymraeg erbyn 2050 i 50%.

- Targed statudol o gael yr holl ddisgyblion sy'n gadael addysg orfodol i fod ar lefel sy'n cyfateb i lefel B2 y Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin ar gyfer Ieithoedd.
- Categorïau iaith statudol ar gyfer ysgolion (ar hyn o bryd nid ydynt yn statudol).
- Cynyddu, dros amser, y gofynion o ran faint o bob wythnos ysgol a neilltuir i ddarpariaeth Gymraeg, yn ôl categori iaith yr ysgol.
- Continwwm Sgiliau Iaith Gymraeg statudol, yn disgrifio gwahanol lefelau o hyfedredd, a fyddai'n cael ei ddefnyddio fel sail ar gyfer dylunio a gwella'r ddarpariaeth dysgu Cymraeg gydol oes.
- Cynllun Cenedlaethol Statudol ar gyfer caffael a dysgu'r Gymraeg, a fydd yn rhoi cyfeiriad i gynlluniau lleol awdurdodau lleol (y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg presennol). Bydd y Cynllun Cenedlaethol yn cynnwys targedau cenedlaethol ar gyfer nifer yr athrawon.
- Ailenwi Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn Gynlluniau Gweithredu Cymraeg mewn Addysg i adlewyrchu newid lle bydd Llywodraeth Cymru yn pennu nodau strategol awdurdodau lleol ar gyfer cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg ac yn gosod targedau awdurdodau lleol.
- Bydd gan Weinidogion Cymru fwy o bwerau i gyfarwyddo awdurdodau lleol ynghylch sut y dylent gynllunio addysg cyfrwng Cymraeg – byddant yn gallu comisiynu adolygiad annibynnol allanol o Gynllun Gweithredu Cymraeg mewn Addysg drafft awdurdod lleol a byddant yn gallu gofyn i'r awdurdod lleol gyflwyno Cynllun Gweithredu newydd i'w gymeradwyo. Bydd Estyn yn ymwneud â chynnal adolygiadau brys o'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.
- Bydd awdurdodau lleol o dan ddyletswyddau i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg ac i gynllunio eu gweithlu ar sail eu Cynllun Gweithredu Cymraeg mewn Addysg.
- Bydd cymorth arbenigol ar gyfer dysgu Cymraeg gydol oes, gan gynnwys ysgolion, yn cael ei ganoli, a bydd y rôl yn cael ei rhoi i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, a sefydlwyd yn 2015 i arwain y sector Cymraeg i Oedolion (fel y'i gelwid bryd hynny) yn strategol ar lefel genedlaethol.

# 4. Camau gweithredu'r Senedd

Yn ddiweddar, mae Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol y Senedd wedi cynnal ymchwiliad i'r fframwaith deddfwriaethol sy'n cefnogi Darpariaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, h.y. y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu rhoi ar waith.

Disgwylir i adroddiad y Pwyllgor gael ei gyhoeddi yn fuan. Bydd hyn yn bwydo i mewn i ymgynghoriad ehangach Llywodraeth Cymru ar ei Phapur Gwyn (a drafodir uchod).

# 5. Dadl wleidyddol yn y Senedd

Roedd trafodaeth yn y Cyfarfod Llawn ar 6 Rhagfyr 2022 rhwng y Prif Weinidog ac Arweinydd Plaid Cymru yn dangos y gwahaniaeth yn safbwyntiau eu pleidiau:

> Adam Price AS: "Onid oes angen cydnabod nawr nad yw'r gweithredu yn ddigonol i gyrraedd y nod erbyn 2050? Fel gyda newid hinsawdd, dyw ewyllysio'r nod ddim yn gyfystyr â ewyllysio'r modd o'i gyflawni. Felly, onid yr ateb mwyaf cadarnhaol i'r newyddion heddiw fyddai sicrhau y bydd y Bil addysg Gymraeg arfaethedig yn darparu addysg cyfrwng Cymraeg i bob plentyn yng Nghymru o fewn amserlen glir a digonol?"

> Y Prif Weinidog, Mark Drakeford AS: "Wel, dwi ddim yn cytuno â'r pwynt olaf y mae arweinydd Plaid Cymru yn ei godi. Dwi ddim yn meddwl y bydd pobl yng Nghymru yn fodlon i gefnogi'r pwynt y mae e'n ei wneud, a'r peth pwysicaf am yr iaith Gymraeg yw i gadw cefnogaeth pobl yng Nghymru i bopeth rŷm ni'n trio ei wneud. Rŷm ni wedi llwyddo i wneud hynny. Mae'r teimlad am yr iaith Gymraeg yn gryf dros ben ym mhob cwr o Gymru, ac rŷm ni eisiau defnyddio'r ewyllys da sydd yna i gario ymlaen i gael mwy o bobl i ddysgu Cymraeg, i ddefnyddio Cymraeg, ac yn y blaen."

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1329
Ein cyf/Our ref JMEWL/00465/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
deisebau@senedd.cymru

27 Ebrill 2023

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 14 Mawrth yn gofyn imi ymateb i'r ddeiseb ynghylch addysg cyfrwng Cymraeg.

Byddwch yn ymwybodol inni gyflwyno Papur Gwyn gyda chynigion a fydd yn sail i Fil Addysg Gymraeg ar 27 Mawrth. Atodaf ddolen at fy natganiad ysgrifenedig sydd yn manylu ar brif gynigion y papur Gwyn

Mae ein cynigion yn cynnwys tyfu darpariaeth addysg Gymraeg dros amser. Mae'r Papur Gwyn hefyd yn nodi ein gweledigaeth i alluogi pob disgybl yng Nghymru i ddod yn siaradwr Cymraeg hyderus erbyn 2050, ac mae'r materion hyn yn cael eu codi'n uniongyrchol yn y ddeiseb. Mae'r weledigaeth hon yn un uchelgeisiol, ac rydyn ni'n gofyn cwestiynau a fydd yn llywio ein hystyriaethau wrth lunio'r Bil.

Rydyn ni'n ceisio barn rhanddeiliaid a'r cyhoedd am ein cynigion, a byddwn felly yn croesawu clywed sylwadau'r deisebydd. Rwy'n ei annog i ymateb i'r cwestiynau a nodir yn y Papur Gwyn sydd ar gael ar wefan y Llywodraeth.

Bydd yr ymgynghoriad yn para hyd nes 16 Mehefin.

Yn gywir,

**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Senedd Cymru | Welsh Parliament
**Ymchwil y Senedd | Senedd Research**

# Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i wrthod eu cynigion ar gyfer ailbrisio'r dreth gyngor

Y Pwyllgor Deisebau | 15 Mai 2023
Petitions Committee | 15 May 2023

**Cyfeirnod:** SR235702-1

**Rhif y ddeiseb**:P-06-1330

**Teitl y ddeiseb**:Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i wrthod eu cynigion ar gyfer ailbrisio'r dreth gyngor.

**Geiriad y ddeiseb:**

Mae trigolion Sir Fynwy yn wynebu codiadau anferthol yn y dreth gyngor os bydd cynigion i ailbrisio cartrefi yn mynd yn eu blaenau.

Mae ailbrisiad o bob un o'r 1.5 miliwn o gartrefi yng Nghymru yn cael ei awgrymu mewn ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru. O dan 'Treth Gyngor Decach' - byddai bandiau newydd yn cael eu creu a chyfraddau treth newydd yn cael eu pennu ar gyfer pob band.

Wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad mae lincs at adroddiadau gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid a Phrifysgol Sheffield yn amcangyfrif y costau ychwanegol y bydd pobl yn eu hwynebu mewn gwahanol rannau o Gymru.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn dangos y bydd bron i 4 o bob 10 o berchnogion tai yn Sir Fynwy yn symud i fyny band ac yn wynebu talu cannoedd yn fwy bob blwyddyn mewn treth gyngor, tra byddai llai nag 1 o bob 10 yn talu llai drwy symud i lawr band.

Mae trigolion eisoes yn wynebu baich annheg o ran y dreth gyngor oherwydd dyma'r ardal awdurdod lleol sy'n cael y lefel leiaf o gyllid yng Nghymru. Mae'r

bwlch rhwng yr hyn a geir gan Lywodraeth Lafur Cymru a’r hyn y mae’r cyngor yn ei wario yn cael ei lenwi gan y dreth gyngor.

Mae Sir Fynwy yn debygol o fod ar ei cholled o’r cynigion hyn a allai wthio teuluoedd sydd dan bwysau i fandiau treth gyngor llawer uwch, gan ei gwneud hyd yn oed yn ddrytach ac i rai pobl leol yn anfforddiadwy i fyw yma ar adeg pan mae llawer yn cael trafferth gyda chostau byw.

Rwy’n annog trigolion Sir Fynwy i lofnodi’r ddeiseb hon fel y gall y Senedd gymryd camau i ddylanwadu ar bolisi Llywodraeth Cymru.

www.david-davies.org.uk/news/monmouthshire-residents-face-council-tax-bombshell-under-welsh-government-plans

# 1. Y cefndir

## Amlinelliad o ddiwygio'r dreth gyngor

Ym mis Ionawr 2017, amlinellodd Llywodraeth flaenorol Cymru ei dull ar gyfer diwygio'r system gyllid llywodraeth leol yng Nghymru. Ei nod oedd cefnogi llywodraeth leol 'i ddod yn fwy cynaliadwy a hunanddigonol'. Un o amcanion allweddol y gwaith o ddiwygio systemau cyllid llywodraeth leol oedd gwneud 'y dreth gyngor yn decach'. Roedd y datganiad yn nodi y byddai’r broses hon yn:

> cynnwys ystyried cwestiynau eang megis pa gyfran o’n refeniw treth sy’n seiliedig ar **eiddo**, ar **incwm**, ar **drafodiadau** neu ar ffactorau eraill. Byddwn yn ystyried a yw'r gwahanol ymagweddau at brisio eiddo yn hyfyw, a allent fod yn decach ac a fyddai **unrhyw fanteision ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus** a'r economi yng Nghymru.

Yn ei diweddariad yn 2019, dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod wedi dechrau’r broses o gomisiynu gwaith ymchwil arbenigol i ddatblygu gwybodaeth a data am fodelau posibl ar gyfer diwygio’r dreth gyngor. Roedd hyn yn cynnwys ymchwil i sefydlu model o dreth gyngor sy’n seiliedig ar werth tir yng Nghymru, ffug ymarfer ailbrisio ar gyfer pob un o’r 1.4 miliwn o anheddau domestig, ac ymchwil i a ellid seilio biliau treth gyngor ar incwm aelwydydd.

Ym mis Mai 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru grynodeb o ganfyddiadau’r gwaith ymchwil a gomisiynwyd ganddi. Daeth i'r casgliad a ganlyn:

> Yr opsiwn mwyaf graddoledig fyddai seilio'r broses o godi refeniw lleol ar incwm trethdalwyr, ond o ran ei roi ar waith, dyma'r opsiwn a ddeellir lleiaf ac mae'n dwyn mwy o risgiau o ran osgoi trethi, yn enwedig mewn perthynas â chyfoeth alltraeth neu gudd. Mae treth gwerth tir leol yn ymddangos yn addawol o'i chymharu â'r systemau presennol, pe bai modd bodloni'r gofynion o ran seilwaith data. Drwy ailbrisio ac ailfandio'r dreth gyngor, gellid cyflawni treth llai anraddoledig neu fwy cyfrannol mewn perthynas â chyfoeth eiddo yn hytrach nag incwm.

Ym mis Tachwedd 2021, cytunodd Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru i gydweithio ar 46 o feysydd polisi, gan gynnwys.

- **Diwygio'r dreth gyngor** – Diwygio un o’r mathau mwyaf anraddoledig o drethu – sy’n effeithio’n anghymesur ar ardaloedd tlotach Cymru – i’w wneud yn decach.

Cafodd Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru ei diweddaru ym mis Rhagfyr 2021 yn dilyn y cytundeb hwn, ac mae’r rhaglen ar ei newydd wedd yn ailddatgan ymrwymiad y Llywodraeth i’r rhaglen ddiwygio hon.

## Setliad Llywodraeth Leol

Mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu cyllid i awdurdodau lleol drwy ei Phrif Grŵp Gwariant Tai a Llywodraeth Leol (MEG). Prif elfen y MEG yw'r cyllid refeniw cyffredinol. Yng Nghyllideb Derfynol 2023-24, dyrannodd Llywodraeth Cymru ychydig dros £4.5 biliwn mewn cyllid refeniw cyffredinol ar gyfer llywodraeth leol.

Mae Setliad Terfynol Llywodraeth Leol, a gyhoeddir ochr yn ochr â’r gyllideb ddrafft, yn cynnwys cyfanswm y cyllid y bydd llywodraeth leol yn ei gael ar gyfer y flwyddyn ariannol. Mae hefyd yn dangos sut y bydd cyllid yn cael ei ddosbarthu i bob awdurdod lleol yn seiliedig ar fformiwla ariannu y cytunwyd arni gyda llywodraeth leol. Mae'r fformiwla yn cynnwys amrywiaeth o ddangosyddion sy'n ystyried nodweddion awdurdod lleol, megis; poblogaeth, teneurwydd y boblogaeth, ac amddifadedd, ymhlith data eraill.

## Dosbarthiad Awdurdodau Lleol 2023-24

O ganlyniad i'r cynnydd cyffredinol o 8.1 y cant yn y setliad, ni chafodd unrhyw awdurdod lai na **chynnydd o 6.6 y cant** yn ei ddyraniad ar gyfer 2023-24. Fodd bynnag, mae’r cynnydd cyffredinol yn is na’r hyn a gafwyd ar gyfer blwyddyn

ariannol 2022-23, pan gafodd awdurdodau gynnydd cyffredinol o 9.4 y cant ar sail tebyg am debyg.

Cafodd Sir Fynwy y cynnydd mwyaf yn ei ddyraniad (9.5 y cant), gyda Chaerdydd yn ail agos (9.2 y cant), ac yna Bro Morgannwg (9.1 y cant). Blaenau Gwent fydd yn derbyn y cynnydd lleiaf, sef 6.6 y cant.

Mae'r tabl isod yn dangos y swm y bydd pob awdurdod lleol yn ei gael mewn Cyllid Allanol Cyfun (cyfanswm y Grant Cynnal Refeniw ac Ardrethi Annomestig) ar gyfer 2023-24, a'r gwahaniaeth canrannol o'i gymharu 2022-23. Mae wedi'i restru mewn trefn, o'r uchaf i'r isaf er hwylustod.

**Tabl 1b: Newid mewn Cyllid Allanol Cyfun (AEF) ynghyd ag ychwanegiad cyllid, heb ei addasu ar gyfer trosglwyddiadau, yn ôl awdurdod unedol (£000)**

| Awdurdod Unedol | Cyllid Allanol Cyfun Terfynol 2022-23 [Nodyn 1] | Cyllid Allanol Cyfun Terfynol 2023-24 | Newid fel canran | Rheng |
|---|---|---|---|---|
| Sir Fynwy | 112,020 | 122,675 | 9.5% | 1 |
| Caerdydd | 543,810 | 593,605 | 9.2% | 2 |
| Bro Morgannwg | 185,931 | 202,797 | 9.1% | 3 |
| Casnewydd | 265,502 | 289,522 | 9.0% | 4 |
| Powys | 210,090 | 228,665 | 8.8% | 5 |
| Sir Gaerfyrddin | 311,585 | 338,410 | 8.6% | 6 |
| Wrecsam | 207,279 | 224,836 | 8.5% | 7 |
| Sir y Fflint | 232,336 | 251,995 | 8.5% | 8 |
| Ceredigion | 119,238 | 129,198 | 8.4% | 9 |
| Sir Ddinbych | 173,596 | 188,024 | 8.3% | 10 |
| Conwy | 183,608 | 198,598 | 8.2% | 11 |
| Abertawe | 386,852 | 418,282 | 8.1% | 12 |
| Sir Benfro | 196,776 | 212,675 | 8.1% | 13 |
| Ynys Môn | 114,490 | 123,665 | 8.0% | 14 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 232,109 | 250,182 | 7.8% | 15 |
| Torfaen | 160,218 | 172,405 | 7.6% | 16 |
| Castell-nedd Port Talbot | 258,174 | 276,696 | 7.2% | 17 |
| Merthyr Tudful | 110,704 | 118,614 | 7.1% | 18 |
| Gwynedd | 212,840 | 228,036 | 7.1% | 19 |
| Caerffili | 317,789 | 339,960 | 7.0% | 20 |
| Rhondda Cynon Taf | 441,596 | 471,317 | 6.7% | 21 |
| Blaenau Gwent | 131,057 | 139,730 | 6.6% | 22 |
| **Cyfanswm Awdurdodau Unedol** | **5,107,603** | **5,519,889** | **8.1%** | |

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cyhoeddi manylion gwariant *fesul pen*; hynny yw, swm y cyllid craidd a ddyrennir fesul pen yn ôl ardal awdurdod. Mae'r ffigurau fesul pen isod yn seiliedig ar gyfartaledd poblogaeth 2023 o'r amcanestyniadau o boblogaeth awdurdodau lleol yn 2018 a data poblogaeth Cyfrifiad 2021.

**Tabl 1c: Cyllid Allanol Cyfun (AEF), yn ôl Awdurdod Unedol, 2023-24**

| Awdurdod Unedol | Cynllun Allanol Cyfun cyllid terfynol 2023-24 (£000) | Cynllun Allanol Cyfun Terfynol y pen (£) [Nodyn 2] | Rheng |
|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 139,730 | 2,049 | 1 |
| Merthyr Tudful | 118,614 | 1,978 | 2 |
| Rhondda Cynon Taf | 471,317 | 1,960 | 3 |
| Sir Ddinbych | 188,024 | 1,958 | 4 |
| Castell-nedd Port Talbot | 276,696 | 1,927 | 5 |
| Caerffili | 339,960 | 1,898 | 6 |
| Gwynedd | 228,036 | 1,877 | 7 |
| Torfaen | 172,405 | 1,848 | 8 |
| Casnewydd | 289,522 | 1,816 | 9 |
| Ceredigion | 129,198 | 1,815 | 10 |
| Sir Gaerfyrddin | 338,410 | 1,791 | 11 |
| Ynys Môn | 123,665 | 1,783 | 12 |
| Powys | 228,665 | 1,721 | 13 |
| Abertawe | 418,282 | 1,713 | 14 |
| Conwy | 198,598 | 1,702 | 15 |
| Sir Benfro | 212,675 | 1,702 | 16 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 250,182 | 1,702 | 17 |
| Wrecsam | 224,836 | 1,656 | 18 |
| Caerdydd | 593,605 | 1,623 | 19 |
| Sir y Fflint | 251,995 | 1,612 | 20 |
| Bro Morgannwg | 202,797 | 1,511 | 21 |
| Sir Fynwy | 122,675 | 1,300 | 22 |
| **Cyfanswm Awdurdodau Unedol** | **5,519,889** | **1,756** | |

Nid yw'r ffigurau hyn yn ystyried ffrydiau cyllid neu incwm eraill awdurdodau lleol, megis refeniw'r dreth gyngor, cyllid grant penodol, na ffrydiau ariannu eraill drwy Lywodraeth y DU.

# 2. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Ar 12 Gorffennaf 2022, cafwyd datganiad llafar yn y Cyfarfod Llawn gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol. I gyrraedd y nodau sydd wedi'u hamlinellu yn y cytundeb cydweithredu, dywedodd y Gweinidog y byddai'n rhaid ailbrisio eiddo a gwneud newidiadau i fandiau'r dreth gyngor, a hynny yn y tymor byr:

> Mae'r Llywodraeth hon o'r farn y dylid cynnal ailbrisiad, ac fe ddylem ni anelu at weithredu strwythur newydd ar gyfer y dreth gyngor yn seiliedig ar brisiadau mwy cyfredol.

Cynigir i'r newidiadau hyn gael eu gweithredu erbyn mis Ebrill 2025, gan ddefnyddio gwerthoedd eiddo fel ar 1 Ebrill 2023. Pwysleisiodd y Gweinidog fod gwaith ymchwil yn awgrymu "y byddai hyd at 75 y cant o aelwydydd naill ai'n gweld dim effaith neu y bydden nhw'n gweld eu biliau nhw'n gostwng" o ganlyniad i'r ailbrisio a'r newid bandiau. Dywedodd y Gweinidog hefyd nad

pwrpas yr ailbrisio oedd "cynyddu'r cyfanswm a godir oddi wrth y trethdalwyr, ond ar gyfer ailddosbarthu'r baich i sicrhau cyfiawnder a chywirdeb y system."

Rhoddodd y Gweinidog y wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y cynnydd a wnaed o ran diwygio'r dreth gyngor yn y Cyfarfod Llawn ar 2 Mai 2023. Yn ystod y datganiad, nododd y Gweinidog fod rhai aelodau o'r cyhoedd wedi mynegi pryderon bod "yr ymarfer hwn yn ymwneud â chodi mwy o drethi drwy'r diwygiadau." Wrth ymateb i'r pryderon hyn, dywedodd y Gweinidog:

> Felly, rwyf eisiau bod yn gwbl glir heddiw: nid yw hyn yn ymwneud â chodi yr un geiniog yn fwy mewn refeniw cyffredinol. Mae'n ymwneud â sicrhau bod yr arian rydyn ni'n ei godi yn cael ei godi mor deg â phosib, ar sail y gallu i dalu am wasanaethau cyhoeddus hanfodol sydd o fudd i bawb yng Nghymru.

Cadarnhaodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Asiantaeth y Swyddfa Brisio i "wneud gwaith ailbrisio, gan ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf i asesu gwerth eiddo". Cadarnhaodd y Gweinidog hefyd y bydd yn "cyflwyno deddfwriaeth maes o law i bennu diweddariadau ailbrisio rheolaidd ar sail statudol".

Serch hynny, dywedodd y Gweinidog hefyd y byddai'r diwygiadau arfaethedig yn golygu y byddai "enillwyr a chollwyr", ond bod pob blwyddyn o dan y trefniadau presennol yn creu "mwy o annhegwch, [sydd] yn aml yn cael ei brofi'n fwyaf dwys gan yr aelwydydd tlotaf."

Mewn llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau, dywedodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol:

> Byddai ailbrisio yn galluogi Llywodraeth Cymru i greu bandiau treth newydd a dewis cyfraddau treth newydd ar gyfer pob band, er mwyn creu treth decach. Gallai hyn gynnwys ychwanegu bandiau at ben uchaf a phen isaf y raddfa er mwyn dosbarthu eiddo yn fwy manwl. Er y bydd y rhan fwyaf o eiddo wedi cynyddu yn eu gwerth dros yr 20 mlynedd diwethaf, nid yw hyn o reidrwydd yn golygu y bydd biliau'r dreth gyngor yn cynyddu.

Mae'r Gweinidog yn nodi bod gwneud y system drethi leol yn fwy graddoledig yn golygu y bydd angen i rai pobl gyfrannu mwy. Mae ymateb y Gweinidog i'r ddeiseb hefyd yn tynnu sylw at y ffaith y bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yr angen i liniaru'r effaith ar aelwydydd y gallai'r diwygiadau gael effaith andwyol

arnynt. Gall hyn gynnwys targedu trefniadau trosiannol ar gyfer pobl sydd efallai angen amser i addasu i unrhyw newidiadau.

# 3. Camau gweithredu Senedd Cymru

Ym mis Rhagfyr 2022, fe gynhaliodd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ymchwiliad i gasglu tystiolaeth ar ddiwygio'r dreth gyngor. Canolbwyntiodd yr ymchwiliad ar y canlynol:

- Effaith bosibl ailbrisio'r dreth gyngor a diwygio bandiau'r dreth gyngor ar gyllid a threfniadau gweinyddu llywodraeth leol.
- Manteision ac anfanteision posibl ailbrisio eiddo yn rheolaidd ar drefniadau gweinyddu llywodraeth leol, a'r effaith ar y rhai sy'n gyfrifol am dalu'r dreth gyngor.
- Effeithiolrwydd y fframwaith ar gyfer disgowntiau ac eithriadau mewn perthynas â'r dreth gyngor, a sut y gellid datblygu a gwella'r system.
- Yr achos dros newid Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, sy'n rhoi cymorth i'r aelwydydd incwm isel sydd fwyaf agored i niwed, a'r posibiliadau o ran gwella'r system.

Hefyd, cynhaliodd y Pwyllgor ymgynghoriad ar y mater; gellir gweld yr ymatebion ar wefan y Pwyllgor.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: P-06-1330
Ein cyf/Our ref: RE-00107-23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

27 Mawrth 2023

Annwyl Jack

Diolch am eich llythyr ynglŷn â deiseb P-06-1330 am gynlluniau Llywodraeth Cymru i ddiwygio'r dreth gyngor. Rwy'n croesawu'r cyfle i amlinellu'r cynlluniau'n fanylach ac i ailddatgan fy ymrwymiad i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran cyfoeth yn ein cymunedau drwy ein diwygiadau.

Mae'r dreth gyngor yn darparu ffrwd refeniw flynyddol sylweddol o fwy na £2bn, sy'n helpu i ariannu rhai o'n gwasanaethau cyhoeddus mwyaf hanfodol - addysgu ein plant, gofalu am ein hanwyliaid, cadw cymunedau'n ddiogel, ac ailgylchu ein gwastraff, i enwi ond rhai. Er bod iddi lawer o fanteision fel treth leol effeithlon, rydym yn credu y gallai'r system fod yn fwy blaengar o ran ei ffurf ac y gellid ei moderneiddio, ar ôl bodoli yn ei ffurf bresennol ers 1993.

**Nodau**

Mae'r Rhaglen Lywodraethu a'r Cytundeb Cydweithio yn ymrwymo i dreth gyngor decach a mwy blaengar. Y nodau yw creu system ddiwygiedig sydd â'r nodweddion canlynol:

- Bydd yn rhoi baich treth lai annheg ar aelwydydd;
- Bydd diweddariadau rheolaidd yn rhan annatod o'r system er mwyn cadw'r dreth yn deg yn y dyfodol, gan ddefnyddio technoleg fodern sy'n cael ei gyrru gan ddata;
- Bydd yn ariannu gwasanaethau hanfodol sydd o fudd i bawb, ond yn helpu'r rhai sydd mewn angen;
- Bydd yn fwy tryloyw i drethdalwyr ymwneud â hi; a
- Bydd yn dal yn dreth sy'n cysylltu pobl â chymunedau lleol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Ymchwil cefndirol a chwmpas y gwaith**

Mae cwmpas y diwygiadau arfaethedig wedi'i seilio ar ystyriaethau helaeth dros dymor y Senedd flaenorol (2016-2021). Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Grynodeb o'r Canfyddiadau ym mis Chwefror 2021, a oedd yn dwyn ynghyd gasgliad cynhwysfawr o waith ymchwil a wnaed gan wahanol arbenigwyr, i nodi'r opsiynau posibl ar gyfer diwygio cyllid llywodraeth leol yng Nghymru. Daeth i'r casgliad bod y dreth gyngor yn ffrwd refeniw hynod effeithlon a sefydlog ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, a bod ei chostau gweinyddol yn isel. Oherwydd ei bod wedi bodoli cyhyd, mae pobl yn ei deall yn dda ar y cyfan. Fodd bynnag, mae'r strwythur bandiau a chyfraddau treth yn anflaengar, sy'n golygu bod angen camau lliniaru sylweddol ar gyfer aelwydydd llai cefnog. Mae'r sylfaen drethu ugain mlynedd ar ei hôl hi a chafodd y ddeddfwriaeth ei gwneud cyn dyddiau datganoli. Canfuwyd bod manteision i rai o'r dulliau eraill a ystyriwyd, megis treth gwerth tir a threth incwm leol, oherwydd eu bod yn ffyrdd mwy blaengar o godi refeniw lleol. Er hynny, byddai rhwystrau gweithredu sylweddol neu faterion gweinyddol i'w goresgyn cyn y gellid eu rhoi ar waith, sy'n golygu y byddai'n cymryd dau dymor i'w cyflawni.

Ein huchelgais felly yw sicrhau bod y dreth gyngor yn cael ei diwygio mewn modd ystyrlon yn ystod tymor y Senedd hon – gan ddatblygu'r system fel ei bod yn fwy blaengar ac yn cyfrannu at gyflawni ymrwymiadau eraill yn ein Rhaglen Lywodraethu, yn enwedig o ran creu Cymru fwy cydnerth, cyfartal a mwy llewyrchus. Cynhaliais ymgynghoriad Cam 1 yr haf diwethaf, a oedd yn gofyn am farn aelodau'r cyhoedd a rhanddeiliaid am gwmpas eang y newidiadau, a hynny'n cynnwys:

- ailbrisio'r 1.5 miliwn eiddo domestig yng Nghymru. Mae'r bandiau treth bron i ugain mlynedd ar ei hôl hi, ac wedi'u seilio ar wybodaeth 2003.
- creu bandiau newydd a dewis cyfraddau treth newydd i bob band, er mwyn creu treth fwy blaengar. Gallai hyn gynnwys ychwanegu bandiau at ben uchaf a phen isaf y raddfa er mwyn dosbarthu eiddo mewn modd manylach.
- sicrhau tegwch a chywirdeb y system yn y dyfodol drwy roi sail statudol i gylchoedd ailbrisio rheolaidd.
- adolygu'r gyfres o ddisgowntiau, personau a ddiystyrir, eithriadau a phremiymau, er mwyn sicrhau eu bod yn dal yn berthnasol i'r uchelgeisiau cyfredol o ran polisi.
- adolygu Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor fel y prif gynllun cymorth i aelwydydd incwm isel.
- parhau yr un pryd i archwilio dulliau gwahanol i'w hystyried yn y tymor hwy, megis treth gwerth tir leol neu systemau heb eu bandio.

Mae crynodeb o'r ymatebion wedi'i gyhoeddi and ac rwyf yn bwriadu amlinellu cynigion manwl ar gyfer system ddiwygiedig mewn ymgynghoriad Cam 2 yn ddiweddarach eleni.

**Ailbrisio a bandiau newydd**

Mae mwy nag 1.5 miliwn o anheddau domestig yng Nghymru sy'n agored i dalu'r dreth gyngor. Caiff pob eiddo ei roi mewn un o naw band treth, sef A i I, ar sail gwerth eiddo ar **1 Ebrill 2003**, sef y tro diwethaf i'r sylfaen drethu gael ei diweddaru yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ailbrisio pob un o'r 1.5 miliwn eiddo yng Nghymru er mwyn diweddaru ac ailgydbwyso'r system i adlewyrchu gwerth eiddo heddiw.

Gan i Gymru gynnal ymarfer ailbrisio yn 2003, hi yw'r unig wlad yn y DU sydd wedi ailbrisio sylfaen ei threth gyngor ers cyflwyno'r dreth. Felly, rydym mewn sefyllfa well na Lloegr a'r

Alban lle mae’r dreth gyngor yn cael ei chodi ar sail gwerth eiddo yn 1991. Er hynny, nid yw hyn yn golygu na ddylid gwneud dim byd.

Mae'n annheg ac yn anghywir parhau i seilio biliau treth gyngor ar werth eiddo  ugain mlynedd yn ôl.  Mae'r cartrefi yr ydym yn byw ynddynt yn ffordd bwysig o ddangos cyfoeth a fforddiadwyedd.  Mae ffurf a dosbarthiad y sylfaen drethu wedi newid ers 2003. Os na chynhelir ymarfer i ailbrisio’r 1.5 miliwn eiddo domestig yng Nghymru, rydym wedi’n cyfyngu yn ein gallu i wneud newidiadau sylfaenol i'r dreth gyngor a allai helpu i wneud y system yn decach ac yn fwy blaengar.

Byddai ailbrisio yn galluogi Llywodraeth Cymru i greu bandiau treth newydd a dewis cyfraddau treth newydd ar gyfer pob band, er mwyn creu treth decach. Gallai hyn gynnwys ychwanegu bandiau at ben uchaf a phen isaf y raddfa er mwyn dosbarthu eiddo yn fwy manwl. Er y bydd y rhan fwyaf o eiddo wedi cynyddu yn eu gwerth dros yr 20 mlynedd diwethaf, nid yw hyn o reidrwydd yn golygu y bydd biliau’r dreth gyngor yn cynyddu. Bydd y system y byddwn yn ei chreu yn parhau i fod yn un gymharol. Rydym wedi ymrwymo i ddadansoddi'r effaith yn fanwl, a lle bo angen, byddwn yn gwneud trefniadau pontio ar gyfer pobl a allai fod angen amser i addasu i unrhyw newidiadau.

**Yr effaith ar Awdurdodau Lleol**

Byddai'r diwygiadau sydd wedi’u hamlinellu yn newid natur y sylfaen drethu ym mhob ardal leol. Mae gallu pob awdurdod lleol i godi’r dreth gyngor o'i sylfaen drethu yn wahanol iawn rhwng ardaloedd lle mae’r sylfaen yn uchel neu’n isel. Felly, roedd Cam 1 yr ymgynghoriad yn cydnabod y byddai angen dosbarthu setliadau ariannu blynyddol llywodraeth leol ar gyfer awdurdodau lleol ar sail yr wybodaeth ddiweddaraf am sylfeini trethu lleol. Mae'r egwyddor hirsefydlog o ailddosbarthu grantiau yn un y mae llywodraeth leol fel cyfangorff yn ei chefnogi.

Mae gosod cyllidebau a’r dreth gyngor yn parhau i fod yn fater i bob awdurdod unigol, gan ystyried yr holl ffynonellau cyllid sydd ar gael iddo a'i flaenoriaethau lleol ar gyfer darparu gwasanaethau. Nid wyf yn bwriadu cael gwared ar hawl awdurdodau lleol i osod lefelau blynyddol y dreth gyngor yn eu hardaloedd. Mae'r swyddogaeth honno yn fynegiant allweddol o ddemocratiaeth leol ar waith. Mae Llywodraeth Cymru'n deall y bydd angen i awdurdodau wneud dewisiadau anodd o hyd wrth bennu eu cyllidebau a'u treth gyngor bob blwyddyn ac, wrth wneud hynny, y bydd angen iddynt ymgysylltu'n ystyrlon â'u cymunedau lleol wrth ystyried eu blaenoriaethau. Mae awdurdodau lleol Cymru yn gallu defnyddio'r refeniw y maent yn ei gynhyrchu drwy’r dreth gyngor at unrhyw ddiben yn unol â'u blaenoriaethau lleol. Nid oes rhaid i awdurdodau yng Nghymru glustnodi incwm ar gyfer gwasanaethau penodol.

Rwy'n parhau i drafod ag arweinwyr llywodraeth leol ac rwyf wedi cael trafodaethau cynhyrchiol a chadarnhaol iawn ynglŷn â bwrw ymlaen â’r gwaith diwygio. Mae hon yn dasg sylweddol a fydd yn cymryd nifer o flynyddoedd i’w chwblhau, gyda llawer o'r gwaith gweithredol a thechnegol yn cael ei wneud gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Bydd angen i awdurdodau lleol hefyd fod yn rhan uniongyrchol o weithredu unrhyw ddiwygiadau.

**Newidiadau i filiau**

Rwyf wedi datgan yn glir nad codi mwy o refeniw gan drethdalwyr cynghorau Cymru yw nod y diwygio. Ei ddiben yw gwneud y system yn un decach, fwy blaengar, sy’n adlewyrchu’r amgylchiadau economaidd. Er mwyn i'r system fod yn fwy blaengar, rydym yn cydnabod y

bydd angen i rai pobl gyfrannu mwy. Y rheswm dros brisio eiddo at ddibenion treth yw ei fod yn eiddo sefydlog anfesuradwy sy'n cysylltu trethdalwr â'r man lle mae'n byw ac yn defnyddio gwasanaethau, a'i fod yn ddangosydd cyffredinol dibynadwy o gyfoeth ac incwm cymharol rhwng aelwydydd. Fodd bynnag, mae elfennau arwyddocaol hefyd i'r dreth gyngor sy'n ystyried y gallu i dalu, gan gynnwys y gyfres o ddisgowntiau, eithriadau a gostyngiadau –- mae bron i hanner aelwydydd Cymru yn cael rhyw fath o ostyngiad ar eu bil. Wrth adolygu agweddau ar y system, rydym yn parhau'n agored i bob syniad a byddwn yn ystyried y ffordd orau o adlewyrchu'r gallu i dalu wrth symud ymlaen.

Byddwn yn ystyried yr angen i liniaru'r effaith ar aelwydydd a allai gael eu heffeithio'n negyddol gan y diwygiadau. Fodd bynnag, ni fydd newidiadau ar unwaith i'r biliau y mae pobl yn eu derbyn. Mae biliau'r dreth gyngor ar gyfer y flwyddyn i ddod wedi cael eu gosod gan yr awdurdodau lleol yn y ffordd arferol.

**Costau byw**

Mae'r ddeiseb yn tynnu sylw at y ffaith fod y cynnydd mewn costau byw yn achosi anawsterau i lawer o bobl. Mae cyflwyno treth gyngor ddiwygiedig yn dasg sylweddol; ond mae'r dystiolaeth a barn arbenigwyr yn gytûn mai dyma un o'r camau mwyaf buddiol y gall Llywodraeth Cymru ei gymryd i leihau anghydraddoldebau o ran cyfoeth. Ond, gan na fyddai diwygiadau i'r dreth gyngor yn digwydd am nifer o flynyddoedd, nid yw'n ateb uniongyrchol i'r argyfwng costau byw y mae llawer o aelwydydd yn ei wynebu ar hyn o bryd.

Rwy'n gobeithio bod yr wybodaeth hon o gymorth i'r Pwyllgor allu ystyried y ddeiseb.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

**P-06-1330 We call on the Welsh Government to reject their proposals for a council tax revaluation, Correspondence – Petitioner to Committee, 10.05.23**

Thank you for your email and for giving me the opportunity to comment.

Having read the attached document, it would appear this is a fait accompli as the Welsh Government seems determined to push ahead with its plans to reform council tax. I am grateful to everyone who signed the petition to challenge what I consider to be an ill-thought-out policy and ensure Monmouthshire's voice is heard.

We have a right to know what the impact of a revaluation will be before any decisions are taken. Monmouthshire residents already face an unfair council tax burden because it is one of the lowest funded out of the 22 local authorities in Wales. Before the Minister for Finance and Local Government even considers a revaluation, she should bring forward a fairer funding formula and look at immediately assisting councils who generally throughout the years have not received their fair share of Revenue Support Grant.

Some local authorities in Wales have three-figure millions in reserves due to years of more generous funding per head of population. Yet Monmouthshire, which is really struggling with its budget, has only had a limited opportunity of accumulating money for its reserves.

It is totally unfair to push hard-pressed families into much higher council tax bands, potentially making it even more expensive and unaffordable for some local people to live here at a time when many are struggling with the cost of living. Nearly four out of 10 homeowners in Monmouthshire will face paying hundreds of pounds more each year by moving up a council tax band, while less than one in 10 would pay less by moving down a band.

We need a full and proper debate in the Senedd.

Regards David Davies

David T. C. Davies

**Rt Hon David T C Davies MP**
**Member for Monmouth**

Senedd Cymru | Welsh Parliament
**Ymchwil y Senedd | Senedd Research**

Eitem 4.6

# P-06-1332: Ariannu ymchwil brechlyn i amddiffyn gwiwerod coch rhag feirws marwol brech y gwiwerod.

Y Pwyllgor Deisebau | 15 Mai 2023
Petitions Committee | 15 Mai 2023

**Cyfeirnod:** SR23/5702-6

**Rhif y ddeiseb:** P-06-1332

**Teitl y ddeiseb:** Ariannu ymchwil brechlyn i amddiffyn gwiwerod coch rhag feirws marwol brech y gwiwerod.

**Geiriad y ddeiseb:** Mae feirws brech y gwiwerod yn cael ei gario a'i ledaenu gan wiwerod llwyd. Nid yw'r feirws yn eu niweidio nhw. O gael eu heintio, mae gwiwerod coch yn datblygu briwiau agored dros eu croen ac yn dioddef marwolaeth boenus o fewn pythefnos.

Yng ngogledd Cymru, collwyd rhwng 70 a 80 y cant o wiwerod coch Gwynedd mewn brigiad o achosion yn 2020/21: https://theconversation.com/squirrelpox-outbreak-detected-in-north-wales-without-a-vaccine-the-disease-will-keep-decimating-red-squirrels-196811

Daeth cyllid Sefydliad Moredun ar gyfer ymchwil addawol i frechlyn i ben.

Mae Cynllun Diogelu'r Gwiwerod Coch yng Nghymru (tudalen 9) yn dangos bod y rhan fwyaf o wiwerod coch Cymru mewn coedwigoedd lle mae gwiwerod llwyd hefyd yn byw. Golyga hyn fod feirws y frech yn fygythiad mawr yng Nghymru. https://cdn.cyfoethnaturiol.cymru/media/691093/cym-cynllun-diogelu-r-wiwer-goch-yng-nghymru.pdf?mode=pad&rnd=132272074460000000

Ym Mangor, cafwyd nifer o achosion o feirws brech y gwiwerod yn y cyfnod 2017-2022. Daethpwyd ar draws cyrff gwiwerod coch mewn coetir ger Pont



www.senedd.cymru

Britannia a Phont Grog Telford. Yn hwyr neu'n hwyrach, bydd yr haint yn croesi'r Fenai a lledaenu i Ynys Môn. Mae'r ynys yn gartref i boblogaeth fwyaf Cymru o'r gwiwerod coch.

Mae'r haint yn achosi symptomau erchyll:

http://www.britishredsquirrel.org/red-squirrels/disease/

Mae angen i Lywodraeth Cymru ymrwymo i ariannu ymchwil, megis yr ymchwil ohiriedig i frechlyn gan Moredun/Wildlife Ark Trust: https://www.dailyrecord.co.uk/news/local-news/red-squirrel-vaccine-under-threat-2540293

# 1. Y cefndir

## Y bygythiad i wiwerod coch gan frech y gwiwerod

Roedd gwiwerod coch unwaith yn gyffredin ledled Cymru. Fodd bynnag, mae poblogaethau'r DU wedi dioddef gostyngiadau sylweddol yn dilyn rhyddhau a lledaenu gwiwer lwyd Gogledd America yn y 19eg canrif. Mae hyn oherwydd lledaeniad y clefyd (feirws brech y gwiwerod yn bennaf) a chystadleuaeth am adnoddau.

Yn ôl yr Ymddiriedolaethau Natur, ymhen tua 150 mlynedd, mae gwiwerod coch wedi gostwng o tua 3.5 miliwn i 140,000 ledled y DU. Yn 2020 rhyddhaodd y Gymdeithas Mamaliaid Rhestr Goch ar gyfer Mamaliaid Prydeinig (Saesneg yn unig), gan amlygu'r rhywogaethau sydd fwyaf mewn perygl. Mae'r wiwer goch yn cael ei dosbarthu fel un 'Mewn Perygl' ac mae'n un o'r 19 o rywogaethau yr ystyrir eu bod mewn perygl o ddiflannu ym Mhrydain.

Mae tair prif boblogaeth gwiwerod coch yng Nghymru ar Ynys Môn, yng Nghoedwig Clocaenog yn y gogledd, a Chlywedog yng nghanolbarth Cymru.

Mae feirws brech y gwiwerod yn cael ei gludo gan y wiwer lwyd ymledol, anfrodorol heb effeithio ar eu hiechyd (mae gwiwerod llwyd wedi datblygu imiwnedd i'r clefyd ar ôl bod yn agored i'r feirws ers canrifoedd), ond mae'n angheuol i wiwerod coch. Cafodd yr achos cyntaf o frech y gwiwerod ei ganfod mewn gwiwer goch yn Norfolk ym 1980, ond mae'n bosibl bod y feirws wedi bod yn bresennol, ond heb ei ganfod, yn y boblogaeth ers nifer o flynyddoedd. Erbyn 2018, roedd 525 o achosion wedi'u canfod ledled y DU.

Mae'r Ymddiriedolaethau Natur yn nodi bod astudiaethau diweddar wedi dangos bod hyd at 100 y cant o wiwerod llwyd mewn ardal yn gallu bod yn cario'r feirws. Amcangyfrifir fod y dirywiad ym mhoblogaeth gwiwerod coch 17 i 25 gwaith yn uwch mewn ardaloedd lle mae'r feirws yn bresennol mewn gwiwerod llwyd (o gymharu â chystadleuaeth gan wiwerod llwyd yn unig). Dangosodd astudiaeth o boblogaeth gogledd Gwynedd fod y clefyd yn 2020/21 wedi achosi colled o 70 y cant i 80 y cant o boblogaeth ei gwiwerod coch.

Ymhlith y bygythiadau eraill i wiwerod coch mae ysglyfaethu gan gathod a chŵn domestig, lladd ar y ffyrdd a cholli a darnio cynefinoedd. Mae ymwybyddiaeth gynyddol o ymddangosiad risgiau clefydau eraill. Yn benodol, mae adenofeirws wedi'i gofnodi mewn gwiwerod coch marw mewn lleoliadau ledled y DU.

## Camau i fynd i'r afael â brech y gwiwerod

### Brechlyn brech y gwiwerod

Ychydig flynyddoedd yn ôl dechreuodd Sefydliad Moredun ei waith ar frechlyn ar gyfer brech y gwiwerod. Darparodd elusen Wildlife Ark Trust gyllid ar gyfer rhaglen datblygu brechlyn brech y gwiwerod. Roedd cyllid annigonol yn golygu bod y gwaith ymchwil hwn wedi dod i ben.

Ymhlith yr heriau wrth ddatblygu'r brechlyn roedd nodi ffurfiau amddiffynnol o'r feirws ar gyfer datblygu brechlyn a dod o hyd i ffyrdd o ddosbarthu'r brechlyn. Y mecanwaith dosbarthu delfrydol yw drwy'r geg, fel y gellir cynnwys y brechlyn mewn ffynonellau bwyd. Dywedodd Athrofa Moredun er bod brechlynnau drwy'r geg yn bodoli ar hyn o bryd ar gyfer rhai rhywogaethau bywyd gwyllt, er enghraifft brechlynnau'r gynddaredd ar gyfer llwynogod yn yr UE, mae brechlynnau drwy'r geg yn peri heriau biolegol a logistaidd. Dywedodd Dr Colin McInnes, a arweiniodd y rhaglen ymchwil wreiddiol, fod rhywfaint o waith i'w wneud eto.

Dywedodd Dr Craig Shuttleworth, o Ymddiriedolaeth Gwiwerod Coch Cymru o'r holl fentrau cadwraeth presennol, mae'n ystyried y gwaith ymchwil i frechlyn brech y gwiwerod fel yr un sydd fwyaf tebygol o achub y wiwer goch. Amcangyfrifodd Dr Shuttleworth fod twristiaid sy'n dod i weld y wiwer goch ar Ynys Môn yn werth tua £1 miliwn y flwyddyn ar hyn o bryd ac ychwanegodd "Beth am y gwerth lles?"

Mae'r Cynllun Cadwraeth Gwiwerod Coch i Gymru a luniwyd yn 2018, ac a baratowyd gan Fforwm Gwiwerod Cymru (sy'n cynnwys sefydliadau statudol, anstatudol a grwpiau gwiwerod lleol) yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am

gamau gweithredu a bennwyd yn 2009 (Atodiad 2). Cam gweithredu 5.4 (tudalen 26) yw *"Research into squirrelpox virus"* a ddisgrifir fel *"Promote the need for funding into squirrelpox virus research and vaccine development, and facilitate co-operation between the relevant departments of the different UK administrations"*. **Mae'n amlygu cyllid i gefnogi gwaith ymchwil fel cyfyngiad.**

Yn 2015, dywedodd George Eustice, Gweinidog DEFRA, wrth Senedd y DU fod Defra yn cyfrannu cyfanswm o £50,000 rhwng 2014 a 2016 i'r gwaith ymchwil i frechlyn brech y gwiwerod a fydd yn helpu i sicrhau dyfodol hirdymor gwiwerod coch yn y DU.

Trafodwyd y mater yn Senedd yr Alban yn 2013. Dywedodd Paul Wheelhouse, Gweinidog yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd (ar y pryd), wrth y Senedd fod Scottish Natural Heritage (SNH) (ar y pryd) wedi cyfrannu cyllid i Sefydliad Ymchwil Moredun i ddatblygu'r brechlyn. Aeth ymlaen i ddweud:

> The institute has costed the next phase of further exploring attenuation and dosage at approximately £160,000. It is likely that the cost of developing and trialling a vaccine for use in the field would be a further £500,000 and that it would take five to 10 years. The trials will also require wild-caught red squirrels.
>
> The Scottish Government and SNH have not yet been approached for funding for the next phase of the trial.

## Rheoli poblogaeth y wiwer lwyd

Mae rheoli fector allweddol brech y gwiwerod, y wiwer lwyd, wedi helpu i fynd i'r afael â brech y gwiwerod mewn gwiwerod coch mewn rhai ardaloedd.

Mae Cynllun Cadwraeth Gwiwerod Coch i Gymru Fforwm Gwiwerod Cymru a Chynllun Gweithredu Cymru i Reoli'r Wiwer Lwyd Llywodraeth Cymru yn disgrifio gwahanol ddulliau, gan gynnwys difa, rheoli ffrwythlondeb gwiwerod llwyd ac adfer ysglyfaethwyr naturiol, gan gynnwys bele'r coed.

# Diogelwch cyfreithiol ar gyfer gwiwerod coch a rheoli gwiwerod llwyd

Mae gwiwerod coch yn cael eu hamddiffyn yn y DU o dan *Ddeddf Bywyd a Chefn Gwlad 1981*. Mae gwiwerod llwyd wedi'u rhestru yn Atodlen 9 i'r Ddeddf hon, sy'n ei gwneud yn anghyfreithlon i ryddhau gwiwer lwyd neu ganiatáu iddi ddianc.

Mae gwiwerod coch ar restr o rywogaethau Adran 7 *Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016* ac yn cael eu hystyried "o'r pwysigrwydd pennaf at ddiben cynnal a gwella bioamrywiaeth" yng Nghymru. O dan y Ddeddf rhaid i Weinidogion Cymru "[g]ymryd pob cam rhesymol er mwyn cynnal a gwella'r organeddau byw" ar y rhestr honno ac "annog eraill i gymryd camau o'r fath".

Mae Rheoliad yr UE (UE) Rhif 1143/2014 ar Atal a Rheoli Cyflwyno a Lledaenu Rhywogaethau Estron Goresgynnol (Rheoliad IAS) yn ei gwneud yn ofynnol i restr o rywogaethau estron goresgynnol sy'n peri pryder i'r Undeb gael ei llunio. Rhaid i Aelod-wladwriaethau roi mesurau rheoli ar waith ar gyfer difa, rheoli neu gyfyngu ar rywogaethau rhestredig. Mae gwiwerod llwyd ar y rhestr o Rywogaethau Estron Goresgynnol sy'n peri pryder i'r Undeb. Mae Cynllun gweithredu Cymru i reoli'r wiwer lwyd gan Lywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â gofynion y Rheoliad IAS mewn nod i reoli gwiwerod llwyd.

# 2. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Mae Cynllun Gweithredu Cymru i Reoli'r Wiwer Lwyd - Llywodraeth Cymru (2018) yn anelu at ddatblygu dull integredig o reoli gwiwerod llwyd a bodloni rhwymedigaethau o dan Reoliadau Rhywogaethau Estron Goresgynnol (IAS). Fforwm Gwiwerod Cymru yw'r grŵp llywio sy'n cydgysylltu, cefnogi a rhoi cyngor ar y Cynllun Gweithredu.

Nod Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru Llywodraeth Cymru yw "gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth, oherwydd bod iddi werth cynhenid, a sicrhau budd sy'n para i'r gymdeithas." Mae Cynllun 2020-21 yn rhestru Cynllun Cadwraeth Gwiwerod Coch Fforwm Gwiwerod Cymru fel rhaglen o dan yr amcan "Cynnal a gwella rhywogaethau sydd o'r pwys mwyaf i Gymru oherwydd eu gwerth cynhenid a sicrhau cadernid ecosystemau".

# 3. Camau gweithredu Senedd Cymru

Bu dwy ddeiseb gan y Senedd i ddiogelu poblogaethau gwiwerod coch yn y blynyddoedd diwethaf, ond nid oeddent yn ymwneud yn benodol â brechlyn brech y gwiwerod:

- P-06-1208 'Deddfau newydd i amddiffyn gwiwerod coch prin rhag colli cynefinoedd sy'n achosi dirywiad yn eu poblogaeth' (a gwblhawyd yn 2022); a

- P-06-1225 'Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru orfod cynnal a chyhoeddi arolygon bywyd gwyllt blynyddol cyn cwympo coetir' (a gwblhawyd yn 2022).

Yn 2021, cyhoeddodd y Senedd 'argyfwng natur'. Roedd hyn yn gydnabyddiaeth o'r dirywiadau mewn bioamrywiaeth a achoswyd gan bobl. Gwnaethom alw ar Lywodraeth Cymru i:

- gyflwyno gofyniad sy'n rhwymo mewn cyfraith i wrthdroi colli bioamrywiaeth drwy dargedau statudol; a
- deddfu i sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol annibynnol i Gymru.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn o reidrwydd yn cael eu diweddaru na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1332
Ein cyf/Our ref JJ/00785/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

28 Ebrill 2023

Annwyl Jack Sargeant AS,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 29 Mawrth ynglŷn â deiseb i Lywodraeth Cymru ddatblygu brechlyn ar gyfer brech y gwiwerod.

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r gwaith pwysig sy'n cael ei wneud gan bob grŵp gwiwerod yng Nghymru dros adfer gwiwerod coch, yn enwedig drwy leihau cyrhaeddiad ac effaith brech y gwiwerod a gludir gan y wiwer lwyd, rhywogaeth estron oresgynnol.

Rydym yn ddiolchgar am gyngor arbenigol Fforwm Gwiwerod Cymru wrth ein helpu i sicrhau bod rhywogaethau prin fel y wiwer goch yn cael y cyfle i ffynnu. Mae'r rhai a sefydlodd y ddeiseb hon yn aelodau o'r Fforwm.

Yn gywir

Julie James

**Julie James AS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**P-06-1332 Fund vaccine research to protect red squirrels from deadly Squirrelpox virus, Correspondence – Petitioner to Committee, 03.05.23**


Dr Craig Shuttleworth

*Honorary Visiting Research Fellow*
School of Natural Sciences
Bangor University
Bangor


Jack Sargeant MS
Chair - Petitions Committee
Senedd Cymru
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN

Date 3/5/23

Dear Mr Sargeant,

**P-06-1332: Petitioner's Submission for Petitions Committee Meeting 15th May 2023**

Thank you for the email from the Committee Clerk dated 2nd May 2023. I note the enclosure of a letter dated 28th April 2023 to you from Julie James, Minister for Climate Change (Ref: J/00785/23).

My petition was signed by over 11,000 people and calls for the Welsh Government to fund research into a squirrelpox vaccine.

The Minister's letter kindly acknowledges the work undertaken by the 'Squirrel groups' which would include both Clocaenog Red Squirrels Trust (RSTW) (Charity 1186829, registered 2019) and Red Squirrels Trust Wales (Company Limited by Guarantee 06248674, registered 2007).

The letter goes on to state that, '*We* [Welsh Government] *are grateful for the expert advice of the Wales Squirrel Forum to help us ensure… red squirrels are given the chance to thrive*.'

Although the letter does not expressly state that the Welsh Government see the Wales Squirrel Forum as the setting for discussion and subsequent advice to them on vaccine, it would appear to be suggesting this course.

This would be far from satisfactory.

Petitions arise from a public recognition of, for example, a failing, an omission, an opportunity, a call for change. It would be very easy for Government to respond to virtually every imaginable petition call by simply referring the matter to an existing advisory group and making no wider response.

**Wales Squirrel Forum**

The Wales Squirrel Forum is chaired by Natural Resources Wales (NRW) and has representatives on it from Welsh Government. It has had over a decade to move vaccine research on and has not done so. It has had over a decade to develop a strategy for managing squirrelpox outbreaks and has yet to do so.

The reality is that national understanding of squirrelpox in Wales, and our evolving regional response to outbreaks has come about via collaborative scientific research outputs produced through Bangor University partnerships and not those of the Forum. This research has relied upon volunteers monitoring red squirrels, collecting bodies, responding to reports of sick animals, posting bodies to pathologists etc. I suspect these individuals would be deeply disappointed in a letter from the Minister that appears so singularly non-committal.

Further, volunteers have raised the majority of the funding for red squirrel conservation in North Wales for the 2020-2025 period: NRW North East will contribute £50K, Clocaenog Trust £30K and RSTW £150K and this is matched by £500K from Heritage Fund (HF). The HF element was a three year application process again shouldered by volunteers. They invested hundreds of hours of personal time to create the 'Magical Mammals' project. During the application process there was a massive squirrelpox outbreak in Gwynedd which killed 70-80% of the animals. Volunteers saw much of their hard work in restoring red squirrel undone but were undaunted because they have no choice but to be stoic.

I mention the above as important context because there was huge support for the petition from volunteers on Anglesey and in North Wales. I was also struck by the how many volunteer led red squirrel conservation groups in England shared and signed too. These groups undertake 90% of the grey squirrel control in England to save red squirrels.

**Vaccine**

As I wrote recently in 'Bylines Cymru' (27/3/23):

[https://bylines.cymru/environment/squirrelpox-endangers-red-squirrels-and-livelihoods/]

> 'In 2017, the Director of the UK Squirrel Accord, an umbrella body of 41 conservation and forestry organisations, Government agencies, and companies, with links to voluntary red squirrel conservation groups, stated publicly that they had secured £250,000 of funding to restart research. It was suggested that half the funds had been pledged by **UK Governments**.
>
> So what happened next? Well, it appears that very little happened. In fact, talk of vaccine development virtually ceased. Outbreaks of SQPV, however, continued to affect regional populations in England, Scotland, and Wales. Animals developed symptoms and died, post mortem tests were undertaken, the virus was confirmed as the cause, and the whole sorry process would repeat.'

It would be interesting to know whether Welsh Government committed funds to this research in 2017 and if so, what and who they would have been funding; why no research occurred and what happened to committed funds.

I would grateful if the Petitions Committee could ask the Minister to provide a full response to my petition.

Kind regards

Dr Craig Shuttleworth
*Petitioner P-06-1332*

https://www.bangor.ac.uk/staff/natural-sciences/craig-shuttleworth-082156/en

**P-05-1106 Cyflwyno cyllidebau iechyd personol a gofal personol yng Nghymru**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Rhys Bowler, ar ôl casglu cyfanswm o 779 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Mae gan Rhys gyflwr Nychdod Cyhyrol Duchenne. Mae'n byw mewn ofn am ei fywyd bob dydd, ac yn cael ei adael ar ei ben ei hun am oriau’n gobeithio na fydd y peiriant anadlu y mae’n dibynnu arno yn torri. Rhaid iddo ddewis rhwng gofal cymdeithasol a ariennir yn wael a phecyn Gofal Iechyd Parhaus y GIG sy’n golygu nad yw’n cael dewis pwy sy'n gofalu amdano.

Pe bai Rhys yn byw yn Lloegr, byddai ganddo gyllideb iechyd bersonol, a fyddai’n caniatáu iddo ddefnyddio Gofal Iechyd Parhaus y GIG yn ogystal â gallu dewis pwy sy'n gofalu amdano. Nid yw hyn ar gael yng Nghymru.

**Gwybodaeth Ychwanegol**
Rhys ydw i, rydw i’n 33 oed ac yn byw gyda Nychdod Cyhyrol Duchenne ym Mhontypridd, Cymru. Mae gen i anawsterau symud sylweddol ac mae angen peiriant anadlu arnaf er mwyn anadlu.

Rydw i wedi cyflogi fy nghynorthwywyr gofal fy hun ers degawdau ac mae gennyf lawer o brofiad o'u hyfforddi a'u cyflogi. Rydw i wedi cael profiadau gwael wrth ddefnyddio asiantaethau a pheidio gallu dweud fy marn o ran pwy sy'n gofalu amdanaf. Rydw i eisiau dewis fy nghynorthwywyr gofal fy hun. Rydw i eisiau gwybod pwy sy'n dod i’m cartref i'm helpu gyda fy ngofal personol, ac rwyf am iddynt fod yn bobl rwy’n ymddiried ynddynt ac sydd wedi’u hyfforddi o ran y ffordd orau i ddarparu gofal i mi. Peidiwch â gadael i'm profiad gael ei wastraffu!

Rydw i eisiau Cyllideb Iechyd Bersonol er mwyn i mi gael gofal 24 awr a chael dewis pwy yw fy nghynorthwywyr gofal. Mae hyn wedi bod ar gael yn Lloegr

ers 2014, mae'n hen bryd i Gymru gymryd hyn o ddifrif a dechrau rhoi dewis a rheolaeth go iawn i bobl dros y gofal maen nhw'n ei gael.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Pontypridd
- Canol De Cymru

**Julie Morgan AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-1106
Ein cyf/Our ref JMSS/00035/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

18 Ebrill 2023

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 18 Ionawr 2023, ynghylch **Deiseb P-05-1106 – '*Cyflwyno cyllidebau iechyd personol a gofal personol yng Nghymru*'**, lle y gofynnoch am ddiweddariad pellach ynghylch y cynnydd sy'n cael ei wneud.

Yn fy ngohebiaeth flaenorol, dyddiedig 6 Gorffennaf 2022, cyfeiriais at yr ymrwymiad penodol 'Gwella'r rhyngwyneb rhwng Gofal Iechyd Parhaus (CHC) a thaliadau uniongyrchol' sydd wedi'i gynnwys yn ein Rhaglen Lywodraethu.

Yn unol â'r ymrwymiad hwn, cyhoeddwyd cynllun diwygiedig '*Gofal Iechyd Parhaus y GIG: Y Fframwaith Gweithredu Cenedlaethol yng Nghymru*' yn 2021 (yn weithredol o Ebrill 2022 ymlaen) sy'n nodi'r polisi ar gyfer cymhwysedd i CHC a chyfrifoldebau sefydliadau'r GIG ac awdurdodau lleol.

Mae'r fframwaith yn cynnwys amrywiaeth o opsiynau a mesurau i sicrhau llais a rheolaeth i unigolion, gan gynnwys:

- byrddau iechyd yn contractio ag Ymddiriedolaeth Defnyddwyr Annibynnol, sydd wedi'i sefydlu o bosibl gan aelod o deulu'r unigolyn sy'n cael gofal, er mwyn rheoli gofal yr unigolyn hwnnw gan ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol penodol ar gyfer yr unigolyn

- byrddau iechyd yn cyflogi personél (naill ai yn uniongyrchol neu drwy asiantaeth) a oedd wedi'u cyflogi'n flaenorol gan yr unigolyn drwy daliadau uniongyrchol

Mae'r opsiynau a nodir yma yn fesurau interim posibl a ganiateir o dan y strwythur deddfwriaethol presennol. Byddai'r mecanweithiau hyn yn mynd rhywfaint o'r ffordd i gefnogi llais a rheolaeth. Fodd bynnag, byddai llawer o unigolion yn ystyried y trefniadau hyn yn israddol i daliadau uniongyrchol neu Gyllidebau Iechyd Personol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydym wedi gweld galwad cynyddol i gyflwyno math o daliadau uniongyrchol ar ffurf Cyllidebau Iechyd Personol ar gyfer unigolion yng Nghymru sy'n gymwys i gael CHC. Byddai hyn yn debyg i'r system bresennol yn Lloegr sydd wedi bod yn weithredol ers 2014. Mae llawer yn credu y byddai hyn yn caniatáu i bobl anabl gael llais a rheolaeth dros eu gofal gan gadw eu hannibyniaeth pan yn gymwys i gael CHC.


Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 17 Awst a 7 Tachwedd 2022, ar rai newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth sylfaenol, gan gynnwys y cynnig i gyflwyno mynediad at daliadau uniongyrchol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG. Cafwyd ymateb cryf i'r mater hwn. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael eu dadansoddi gan swyddogion ar hyn o bryd ac unwaith y bydd hyn wedi'i gwblhau, byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion.

Sefydlwyd Gweithgor CHC/taliadau uniongyrchol sy'n cynnwys rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys pobl anabl, Sefydliadau Pobl Anabl, byrddau iechyd, awdurdodau lleol, a swyddogion Llywodraeth Cymru. Mae'r grŵp wedi bod yn mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â'r cyflawniadau dros dro a thymor hwy yn Fframwaith Cenedlaethol CHC i gefnogi'r gwaith o roi llais a rheolaeth well i'r unigolion.

Yn ogystal, sefydlwyd grŵp drafftio i gyd-gynhyrchu Canllawiau gydag ystod o randdeiliaid ar y mecanweithiau dros dro megis Ymddiriedolaethau Defnyddwyr Annibynnol. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo'n gyflym a bydd yn parhau dros y misoedd nesaf.

Pan fydd y gwaith hwn wedi'i ddatblygu ymhellach, byddem yn croesawu'r cyfle i ddychwelyd at y Pwyllgor i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau am y cynnydd a wnaed.

Yn gywir,



**Julie Morgan AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services

**P-06-1213 Dylid gwahardd defnydd hamdden o Seadoo/sgïo jet yng Nghymru. Ac eithrio mewn ardaloedd dynodedig a reolir yn llym**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Richard Jenkins, ar ôl casglu cyfanswm o 1,432 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Mae ein bywyd gwyllt a'u cynefinoedd eisoes o dan ymosodiad milain gan wareiddiad graddol, ymelwa ar adnoddau, llygredd a newid hinsawdd. Mae caniatáu defnydd heb ei reoli o'r cerbydau hamdden swnllyd, peryglus a llygrol hyn - gan ychwanegu at y difrod hwnnw - yn anghyfrifol! Dydyn nhw ddim yn cynnig unrhyw wasanaeth arall i ddynol ryw heblaw cyffro am ennyd. Mae hyn yn wastraffus yn ogystal ag anghyfrifol.

**Gwybodaeth Ychwanegol**:
Mae yna achosion o aflonyddwch, ymddygiad ymosodol a niwed bob dydd i ddefnyddwyr eraill y môr a bywyd gwyllt, gydag ambell achos yn cael ei gofnodi ac eraill ddim. Mae yna lawer o achosion o niwed corfforol a hyd yn oed marwolaeth i anifeiliaid a bodau dynol. Prin bod y defnydd hamdden o’r cerbydau pŵer uchel peryglus hyn yn cael ei reoli o gwbwl. Rhaid eu gwahardd o bob maes, ac eithrio meysydd posibl bach a phenodol, sydd wedi’u neilltuo i'r bobl hunanol hynny niweidio'u hunain yn unig. Gallai hynny fod yn rhy anodd. Os mai dyna’r achos, dylid eu gwahardd yn gyfan gwbl yng Nghymru.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Pen-y-bont ar Ogwr
- Gorllewin De Cymru

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1213
Ein cyf/Our ref JJ/00653/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau

05 Ebrill 2023

Annwyl Jack,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 16 Mawrth ynglŷn â Deiseb P-06-1213 'Dylid gwahardd defnydd hamdden o *Seadoos*/jetiau sgïo yng Nghymru, ac eithrio mewn ardaloedd dynodedig a reolir yn llym'.

Caiff Cymru ei chydnabod yn rhyngwladol am fod â rhai o'r traethau a safonau dŵr gorau yn Ewrop ac rwy'n awyddus i warchod y cyflawniad arbennig hwn. Mae dyfroedd ymdrochi o safon uchel yn bwysig ar gyfer cefnogi cyfleoedd gwerthfawr o ran gweithgareddau hamdden dŵr yn yr awyr agored. Maen nhw hefyd o gymorth i gyfrannu at yr amcanion a nodir yn Neddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: Cymru Iachach. Mae safonau uchel y dyfroedd ymdrochi hyn yn dangos yr hyn y gellir ei gyflawni pan fo cydweithio cadarn ar waith rhwng llywodraeth, rheoleiddwyr a chymunedau.

Mae'r defnydd o jetiau sgïo a *seadoos* yn weithgaredd hamdden nad yw'n cael ei reoleiddio. Fodd bynnag, ceir codau ymddygiad morol ynghylch y defnydd o fadau dŵr personol sydd wedi'u hanelu at atal aflonyddu rhywogaethau a warchodir ac sy'n cwmpasu rhan fwyaf o'r moroedd o amgylch Cymru.

Nodaf fod gan Awdurdodau Lleol y pŵer i reoleiddio jetiau sgïo a hynny drwy is-ddeddfau. Yn ogystal, mae Adran Drafnidiaeth Llywodraeth y DU ar hyn o bryd yn ymgynghori ar gryfhau'r camau gorfodi ynghylch y defnydd peryglus o fadau dŵr hamdden a phersonol (gwefan Llywodraeth y DU). Gwneir hynny o fewn cwmpas y Ddeddf Llongau Masnach - nad yw'n fater datganoledig. Er bod y mater y tu hwnt i gylch gwaith fy mhortffolio, gallaf gynghori y byddai angen i unrhyw gyfrifoldebau newydd ar awdurdodau lleol gyd-fynd â chydnabyddiaeth o'r angen am adnoddau ychwanegol.

Gan gydnabod bod cynnydd wedi bod mewn digwyddiadau o fadau dŵr megis jetiau sgïo yn effeithio ar fywyd gwyllt y môr, mae Cynllun Gweithredu ar gyfer Rheoli'r Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn cynnwys mesurau penodol i fynd i'r afael ag aflonyddu. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys codi ymwybyddiaeth a newid ymddygiad drwy godau ymddygiad morol, lansio'r ap Crwydro Arfordir Cymru ac ymyriadau wedi'u targedu ar y cyd â Heddlu Gogledd Cymru.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Strategaeth Cadwraeth Dolffiniaid a Llamidyddion y DU yn nodi’r disgwyliadau ar gyfer gwella poblogaethau morfilod yn y DU. Yn dilyn y broses ymgynghori, rhagwelir y bydd cynllun gweithredu wedi’i dargedu yn cael ei lunio ar gyfer materion penodol megis aflonyddu ar fywyd gwyllt.

Yn gywir,



**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

**P-06-1213 Ban leisure use of Seadoo/jet ski in Cymru. Except in strictly controlled designated areas, Correspondence – Petitioner to Committee, 02.05.23**

Dear/Annwyl Chair & Petitions committee,

Many thanks for forwarding the reply from the Minister for Climate change.

It seems that, sadly, the minister is abdicating responsibility for this & falling back on the 'not devolved' excuse.

Bluntly but I hope not rudely, I find her reply to the committee, pathetic, mealy mouthed & issue dodging nonsense.

I fervently abhor the fact that, in effect, the Minister is happy to rest on an updated MSA1995, the not fit for purpose local authority by laws & the Marine code of practice, when what is needed is a single all Cymru solution.

However, as noted, Westminster will amend MSA 1995 to include PWC's in its legislation. How sad it is, that we couldn't raise the will to bring in more effective legislation ourselves?

The legislation itself is an improvement on the Status Quo but that's a low bar and will do little to stem the irresponsible behaviour of the minority who abuse their privilege

I would like to thank the chair & members of the petitions committee for your diligence but I'm disappointed that we fail to bring in legislation to control this serious & dangerous nuisance.

Cofion,
Richard Jenkins

**P-06-1247 Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i arwain y ffordd drwy gefnogi treialon wythnos waith pedwar diwrnod yng Nghymru**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Mark Hooper, ar ôl casglu cyfanswm o 1,619 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Mae symud i wythnos waith pedwar diwrnod yn rhoi hwb i gynhyrchiant a lles gweithwyr.
Ar ôl treialon llwyddiannus o wythnos waith fyrrach yng Ngwlad yr Iâ - heb ostyngiad mewn cyflogau - mae llywodraethau yn yr Alban, Iwerddon a Sbaen i gyd yn datblygu eu cynlluniau peilot eu hunain ar gyfer wythnos waith pedwar diwrnod, a fydd yn dechrau'r flwyddyn nesaf. Mae gwaith o ddifrif yn cael ei wneud i symud tuag at wythnos waith pedwar diwrnod yng Ngwlad Belg, Seland Newydd, yr Almaen a Siapan hefyd.
Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i arwain y ffordd drwy gefnogi treialon wythnos waith pedwar diwrnod yng Nghymru.

**Gwybodaeth Ychwanegol**:
Pan dreialodd Microsoft wythnos pedwar diwrnod heb ostyngiad mewn cyflogau yn eu swyddfa yn Japan, cafwyd cynnydd o 40 y cant mewn cynhyrchiant.
(https://www.theguardian.com/technology/2019/nov/04/microsoft-japan-four-day-work-week-productivity)
Yn ôl yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, roedd 55 y cant o'r holl ddiwrnodau salwch a gymerwyd y llynedd yn ganlyniad uniongyrchol i straen, iselder neu orbryder mewn perthynas â gwaith. Byddai symud i wythnos waith pedwar diwrnod yn arwain at leihad dramatig mewn problemau iechyd meddwl yng Nghymru.
Canfu astudiaeth gan y sefydliad amgylcheddol Platform London y byddai cyflwyno wythnos waith pedwar diwrnod heb ostyngiad mewn cyflogau yn arwain at leihad o 127 miliwn o dunelli mewn allyriadau carbon y DU, gostyngiad o fwy nag 20 y cant.

(https://www.theguardian.com/environment/2021/may/27/four-day-working-week-would-slash-uk-carbon-footprint-report)
Wythnos waith pedwar diwrnod yn 'llwyddiant ysgubol' yng Ngwlad yr Iâ https://www.bbc.com/news/business-57724779.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Bro Morgannwg
- Canol De Cymru

**Ymateb Ysgrifenedig Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Deisebau - O Bump i Bedwar? P-06-1247 Cefnogi treialon wythnos 4 diwrnod yng Nghymru**

**Argymhelliad 1.**

Dylai Llywodraeth Cymru lunio cynllun peilot i leihau oriau gwaith o fewn y sector cyhoeddus datganoledig, heb i weithwyr golli dim cyflog. Dylai'r cynllun peilot hwn gael ei dargedu at rannau o'r sector cyhoeddus datganoledig lle mae'n fwy realistig disgwyl na fydd lleihau oriau gwaith staff yn cael effaith negyddol ar gynhyrchiant.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Nid oes cynlluniau i gynnal peilot yng Nghymru ar hyn o bryd, ond nid yw hynny'n golygu na fyddem yn ystyried gwneud yn y dyfodol. Mae gennym ddiddordeb mewn cynlluniau peilot sydd naill ai wrthi'n cael eu datblygu neu sydd wedi'u cynnal mewn mannau eraill i adolygu'r dystiolaeth ac edrych ar y gwersi y gallai Cymru eu dysgu. I fod yn gyson â gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol, mae'n bwysig bod y ffordd yr awn ati yn adlewyrchu barn ac ystyriaethau partneriaid cymdeithasol. Dyna pam y byddwn yn gofyn i Gyngor Partneriaeth y Gweithlu sefydlu gweithgor i ystyried yr wythnos waith 4 diwrnod.

**Goblygiadau ariannol**

Pe bai peilot yn cael ei gynnal, mae'n debygol y bydd yna oblygiadau ariannol. Nid ydym yn gwybod faint fyddai'r goblygiadau ariannol hynny eto a byddai'n dibynnu ar nifer o ffactorau, gan gynnwys hyd a lled y peilot, pa weithwyr a chyflogwyr y byddai'n eu treialu, a'i amserlen. Fel llinyn mesur, mae'r peilot yn Sbaen yn brosiect €50miliwn dros dair blynedd, ond cynllun gwreiddiol yr Alban, a gyhoeddwyd yn 2021, oedd cynnal peilot gwerth £10miliwn ond nid yw wedi cael ei ddatblygu eto.

**Argymhelliad 2.**

Wrth ddatblygu'r cynllun peilot hwn, dylai Llywodraeth Cymru gysylltu â sefydliadau sydd wedi cynnal cynlluniau peilot i leihau oriau gwaith, a sefydliadau sydd wedi eu gweithredu i'w staff eu hunain.

**Ymateb: Derbyn**

Er nad oes cynlluniau ar y funud i gynnal peilot yng Nghymru, rydym yn ystyried y gwersi y gall Cymru eu dysgu. I'r perwyl hwnnw, bydd gofyn trafod â sefydliadau perthnasol, Llywodraeth yr Alban sydd wedi ymrwymo i ddatblygu peilot, ac yn bwysicach, gyda phartneriaid cymdeithasol sy'n cynrychioli barn cyflogwyr a gweithwyr. Byddwn yn parhau gyda'r ymgysylltu hwnnw.

**Goblygiadau ariannol**

Ni fydd goblygiadau ariannol gan fod trafod â sefydliadau perthnasol a chyda phartneriaid cymdeithasol yn rhan o'n gwaith ehangach.

**Argymhelliad 3.**

Os bydd Llywodraeth Cymru'n penderfynu cynnal cynllun peilot i leihau oriau gwaith, dylai fod angen i sefydliadau sector cyhoeddus datganoledig sy'n dymuno cymryd rhan mewn cynllun peilot oriau gwaith llai:

- Gymryd agwedd hyblyg tuag at sut y mae gweithwyr yn lleihau eu horiau, tra'n sicrhau bod modd parhau i fodloni anghenion sefydliadol a lefelau gwasanaethau i bobl Cymru.
- Datblygu cynlluniau i ddangos sut maen nhw wedi ystyried y posibilrwydd y gallai llai o oriau gwaith arwain yn anfwriadol at weithwyr yn cael eu gorweithio, a sut y byddant yn lliniaru yn erbyn y risg hon.
- Nodi cynlluniau y maen nhw wedi'u rhoi ar waith i ymateb i'r heriau ymarferol sy'n gysylltiedig â chymryd rhan mewn cynllun peilot oriau gwaith llai.
- Sicrhau cytundeb gan undebau llafur cydnabyddedig, neu gynrychiolwyr gweithwyr lle nad oes undeb llafur cydnabyddedig, a chynnwys y gweithlu trwy gydol y gwaith o ddatblygu cynigion.

**Ymateb: Derbyn**

Mae'r rhesymau fel y rhai yn yr argymhelliad hwn yn tanlinellu pwysigrwydd ystyried barn partneriaid cymdeithasol cyn cymryd unrhyw gamau. Dyna pam yr ydym yn ceisio cytundeb Cyngor Partneriaeth y Gweithlu i sefydlu gweithgor i ystyried yr wythnos waith 4 diwrnod.

**Goblygiadau ariannol**

Fel uchod, pe bawn yn cynnal peilot mae'n debygol y bydd goblygiadau ariannol. Nid ydym yn gwybod faint fyddai'r goblygiadau ariannol hynny eto a byddai'n dibynnu ar nifer o ffactorau, gan gynnwys hyd a lled y peilot, pa weithwyr a chyflogwyr y byddai'n eu treialu, a'i amserlen.

**Argymhelliad 4.**

Os yw Llywodraeth Cymru'n dewis datblygu cynllun peilot oriau gwaith llai, dylai sicrhau bod asesiad cadarn a diduedd o'r cynllun hwn yn cael ei gynnal, sy'n cynnwys dadansoddiad o effeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y peilot

**Ymateb: Derbyn**

Pe bawn yn penderfynu cynnal peilot, byddai'r materion a godir yn yr argymhelliad hwn ynghylch asesiad annibynnol a diduedd a gwerthuso ymhlith y materion y byddai gofyn i ni eu hystyried.

**Goblygiadau ariannol**

Mae'n debygol y bydd goblygiadau ariannol ynghlwm wrth brynu gwerthusiad annibynnol a diduedd o unrhyw beilot a/neu wrth brynu cyngor annibynnol ac arbenigol i ddylunio unrhyw beilot.  Nid ydym yn gwybod ar hyn o bryd beth fyddai'r goblygiadau ariannol hynny a byddent yn dibynnu ar nifer o ffactorau, nid y lleiaf ohonynt fyddai maint y peilot.

# Eitem 5.4

**P-06-1294 Peidiwch â gadael cleifion â chanser y fron metastatig yng Nghymru y tu ôl**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Tassia Haines, ar ôl casglu cyfanswm o 14,106 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Mae pobl sy'n byw â chanser y fron metastatig yng Nghymru yn cael eu hesgeuluso'n ddybryd gan y system. Ar hyn o bryd dim ond un nyrs glinigol arbenigol canser y fron neilltuedig sydd gan Gymru, sefyllfa a allai adael cannoedd o bobl heb ddigon o gymorth. Mae angen i ni wybod faint o bobl sy'n byw gyda chanser y fron metastatig er mwyn gwella gwasanaethau. Ac rydym am wella canlyniadau o ran ansawdd bywyd drwy godi ymwybyddiaeth o symptomau baner goch ar gyfer canser y fron metastatig.

**Gwybodaeth Ychwanegol**:
Rydym yn galw am y canlynol:
1. Dylai pob person â chanser y fron metastatig yng Nghymru gael mynediad at nyrs glinigol arbenigol neilltuedig ar gyfer canser y fron eilaidd.
2. Dylid casglu data am y rhai sy'n byw â'r cyflwr ac yn cael triniaeth ar ei gyfer yng Nghymru.
Rydym wedi ysgrifennu llythyr agored at y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar ran cleifion canser y fron metastatig i ddangos yr angen am well ansawdd bywyd a mwy o gefnogaeth i'r rhai sy'n byw â'r cyflwr.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Aberafan
- Gorllewin De Cymru

**Eluned Morgan AS/MS**
